PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

PRIS 75c | Rhif 373 | TACHWEDD 2014

**Amddiffyn y Borth**




t11

**Gweithio ar 'Y Llys'**



t16

**Hanna yn holi**



t7

# Cofia'n Gwlad

Cynhyrchiad dan ofal Euros Lewis berfformiwyd fel rhan o brosiect cofio y Rhyfel Byd Cyntaf yng Ngogledd Ceredigion dan nawdd Eglwysi Rhyddion Gogledd Ceredigion. Gweler t. 19



Lluniau: Iestyn Hughes

Y Gweinidog (Huw Emlyn)



Gwenan, Morfudd, Gwynfor a Rhys



Evan John (Geraint Jenkins) a'i Fam (Rhian Evans)

# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**



**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | Rhoshelyg@btinternet.com

**TEIPYDD – Iona Bailey**

**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 832980

**CADEIRYDD – Elin Hefin**
Ynyswen, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871334

**IS-GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION Y TINCER – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228

**YSGRIFENNYDD – Anwen Pierce**
3 Bryn Meillion, Bow Street ☎ 828337

**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk

**HYSBYSEBION – Cysyllter a'r Trysorydd**

**LLUNIAU – Peter Henley**
Dôleglur, Bow Street ☎ 828173

**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**

**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691

**Y BORTH – Elin Hefin**
Ynyswen, Stryd Fawr
elin.john@yahoo.co.uk

**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Swyddfa'r Post ☎828 201

**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**Mrs Aeronwy Lewis**
Rheidol Banc, Blaengeuffordd ☎ 880 645

**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660

**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** - Dôlwerdd ☎ 871 615

**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** - Seintwar ☎ 828 309

**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228

**LLANDRE**
**Mrs Mair England**
Pantyglyn, Llandre ☎ 828693

**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** - 7 Tan-y-berth ☎ 820642

**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# dyddiadur

## Rhifyn Rhagfyr
## Deunydd i law: Rhagfyr 5   Dyddiad cyhoeddi: Rhagfyr 17

**TACHWEDD 19** Nos Fercher Glesni Haf Powell yn trafod ei gwaith fel ffariar. Cymdeithas y Penrhyn yn festri Horeb, Penrhyn-coch am 7.30

**TACHWEDD 21** Nos Wener Bingo yn Neuadd yr Eglwys, Penrhyn-coch am 7.00

**TACHWEDD 21** Nos Wener Rhys Nicholas - darlith gan Rhidian Griffiths Cymdeithas Lenyddol y Garn yn festri'r Garn am 7.30.

**TACHWEDD 22** Nos Sadwrn Cyngerdd John ac Alun a Wil Tân yn Llety Parc

**TACHWEDD 24 – 25** Dyddiau Llun a Mawrth Cwmni Mega yn cyflwyno Patagonia (sioe bantomeim Dafydd Emyr a Gwyneth Glyn) yng Nghanolfan y Celfyddydau, Aberystwyth am 10.00 a 12.30

**TACHWEDD 28** Nos Wener Noson Nadoligaidd Banc Bro am 6.00.

**RHAGFYR 4** Nos Iau Noson agored Ysgol Syr John Rhys Ponterwyd rhwng 4.00- 6.00 Grotto / Stondinau Lluniaeth ysgafn Croeso cynnes i bawb

**RHAGFYR 5** Nos Wener Noson Goffi a Raffl Fawr; adloniant gan Barti Camddwr yn Neuadd yr Eglwys, Capel Bangor am 7.00

**RHAGFYR 6** Dydd Sadwrn hyd 14 Dydd Sul Cynhelir Gŵyl Coeden Nadolig yn yr eglwys. Ar ôl llwyddiant y llynedd, estynnwn wahoddiad unwaith eto i holl sefydliadau, mudiadau, cymdeithasau yr ardal i gymryd rhan. Thema eleni yw 'gwledydd y byd'. Cysylltwch â Meriel Ralphs am fwy o fanylion. Oherwydd poblogrwydd yr ŵyl y llynedd, cyfyngir y lle i arddangos, felly, y cyntaf i'r felin.....

**RHAGFYR 6** Dydd Sadwrn Ffair Nadolig Plaid Cymru Gogledd Ceredigion ym Morlan, Aberystwyth, rhwng 11.00-13.00

**RHAGFYR 8** Dydd Llun Sioe Cyw yn Ysgol Gyfun Penweddig, Aberystwyth am 11.30, 1.45 a 5.45 I brynu tocynnau i unrhyw sioe dylid cysylltu â Galeri Caernarfon trwy ffonio 01286 685 222 neu gellir prynu tocynnau ar eu gwefan, www.galericaernarfon.com

**RHAGFYR 10** Nos Fercher 'Taith i'r India', y Parchedig Wyn Morris. Cymdeithas Gymraeg y Borth yn Neuadd Gymunedol Y Borth am 7.30.

**RHAGFYR 12** Nos Wener Dathlu'r Nadolig gyda Trefor ac Eleri. Cymdeithas Lenyddol y Garn yn festri'r Garn am 7.30.

**RHAGFYR 18** Nos Iau Plygain traddodiadol dan nawdd Cymdeithas y Penrhyn yn Eglwys Sant Ioan , Penrhyn-coch am 7.30

**RHAGFYR 19** Dydd Gwener Ysgolion Ceredigion yn cau am wyliau'r Nadolig

**RHAGFYR 21** Nos Sul Gwasanaeth Carolau yn Eglwys Dewi Sant, Capel Bangor am 6.00

**2015**
**IONAWR 31** Pnawn Sadwrn Oedfa ddwyieithog o ddiolchgarwch am wasanaeth y Parchg Peter M. Thomas a neilltuo y Parchg Judith Morris yn Ysgrifennydd Cyffredinol newydd Undeb Bedyddwyr Cymru ym Methel, Aberystwyth am 2.00.

### Camera'r Tincer

Cofiwch am gamera digidol y Tincer – mae ar gael i unrhyw un yn yr ardal fydd am ei fenthyg i dynnu llun ar gyfer y papur o gyngerdd, cinio neu ddigwyddiad a gynhelir o fewn ein dalgylch. Fe'i cedwir gan Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street (☎ 828102). Os byddwch am gael llun eich noson goffi yn Y Tincer defnyddiwch y camera.

### Telerau hysbysebu

Tudalen lawn (35 x 22 cm) £100
Hanner tudalen £60
Chwarter tudalen £30
neu hysbyseb bach ca. 5 x 8 cm £6 y rhifyn - £40 y flwyddyn (10 rhifyn - misol o Fedi i Fehefin); mwy na 6 mis + £4 y mis , llai na 6 mis - £6 y mis. Cysyllter â'r trysorydd os am hysbysebu.

**ytincer@googlemail.com**

## CYFEILLION Y TINCER

**Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer Mis Hydref 2014**

£25 (Rhif 105) Marian B Hughes, 14 Maes y Garn, Bow Street
£15 (Rhif 206) Elen Evans, Erwlas, Bow Street
£10 (Rhif 192) Elizabeth Lewis, Dolgamlyn, Capel Bangor

**Fe dynnwyd y rhifau buddugol gan aelodau o'r tîm dosbarthu yn festri Bethlehem, Llandre pnawn Mercher Hydref 14**

**Nawr yw'r amser i ymaelodi yn Y Cyfeillion gan y bydd tymor newydd yn dechrau mis Ionawr.**

Annwyl ddarllenwyr,
Carwn dynnu eich sylw at gryno-ddisg eitha gwahanol a fydd yn cael ei chyhoeddi y mis hwn. Ei henw yw "Lleisiau'r beirdd yn Llefaru Eto", sef casgliad o feirdd Cymraeg yn darllen rhai o'u cerddi gorau. Mae'r beirdd i gyd ysywaeth wedi'n gadael, felly mae hon yn drysorfa unigryw o leisiau'r gorffennol (pell ac agos) yn llefaru wrthym heddiw. Mae'n dechrau gyda'r unig recordiad sy'n bodoli o Syr John Morris-Jones yn darllen darn o gywydd Goronwy Owen, a recordiwyd ar silindr. Mae'r gweddill, o Cynan i Gerallt Lloyd Owen, o'r bardd o Ryd-ddu i Iwan Llwyd, ac o Waldo i Dic Jones, yn darllen eu cerddi eu hunain. 40 o ddarnau i gyd.

Os ydych am archebu copi o'r CD newydd, gyrrwch siec am £12.98 i SAIN, LLANDWROG, CAERNARFON LL54 5TG, neu ffoniwch 01286.831111 gyda'r archeb, ac os nodwch enw eich papur bro, bydd Sain yn anfon cyfraniad o bunt i'r papur am bob copi a werthir. Bydd "Yn Llefaru Eto" hefyd ar gael yn y siopau Cymraeg.

Dr. Gwyn Thomas oedd yr ymgynghorydd ar y casgliad hwn, ac wrth inni sylweddoli mor brin yw ein harchif genedlaethol o leisiau'n beirdd, mae Sain wedi dechrau ar raglen o recordio beirdd cyfoes yn darllen eu gwaith ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Yn gywir,
Dafydd Iwan.



## 30 MLYNEDD YN OL

**Mr a Mrs Bowen a Catrin, 23 Maes Ceiro, yn cychwyn ar eu taith i Lundain yn y trên – eu gwobr am ennill cystadleuaeth yng Ngŵyl Aberystwyth ym mis Mai (O'r *Tincer* Tachwedd 1984)**

Annwyl Gyfeillion,
Bydd nifer ohonoch yn cofio i chi noddi, trefnu neu redeg yn Ras yr Iaith ym mis Mehefin. Bellach gyda'r arian wedi ei gasglu gallwn ddatgan fod £4,000 ganddom i'w roi allan ar ffurf grantiau i fentrau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg yn ardal y Ras sef Ceredigion gyfan, bro Ddyfi a Dyffryn Teifi (Castellnewydd Emlyn ac ochrau'r Teifi yn Sir Benfro). Mae manylion y grant i'w cael ar wefan Ras yr Iaith http//:rasyriaith.org neu gallwch ebostio post@rasyriaith.orgyn uniongyrchol am y ffurflen grant. Gallwn ddim addo y bydd pob cais yn llwyddiannus ond mae haelioni, dyfeisgarwch a gwaith caled trefnwyr a rhedwyr y Ras yn golygu fod ganddom waddol gwerth ei dathlu a rhannu. Edrychwn ymlaen i glywed a rhannu arian Ras yr Iaith er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg.

Yn gywir,
Siôn Jobbins
Cadeirydd Rhedadeg Cyf
(cwmni nid-er-elw sy'n trefnu Ras yr Iaith gyda phartneriaid eraill)
07815 85 78 21
post@rasyriaith.org
www.rasyriaith.org
www.twitter.com/rasyriaith
www.facebook.com/rasyriaith2013

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru

**Ymunwch â Grŵp Facebook Ytincer**

**Dilynwch y Tincer ar Trydar @TincerY**

### Cyngerdd

Bydd Côr ABC yn cynnal cyngerdd nos Sul 30 Tachwedd am 7 o'r gloch yn Eglwys Llanbadarn Fawr. I gael mwy o fanylion, cadwch lygad am y posteri, cysylltwch â corabc10@gmail.com neu dilynwch @CorABC1.

Cyhoeddir y Tincer yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.

Y mae pawb sy'n ymwneud â'r Tincer yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.

# PENRHYN-COCH

**Oedfaon Horeb**
**Tachwedd**
23 10.30 Ysgol Sul ac Oedfa Bregeth: Gweinidog
30 10.30 Oedfa bregeth: Gweinidog
**Rhagfyr**
7 10.30 Ysgol Sul 2.30 Oedfa gymun: Gweinidog
14 10.30 Ysgol Sul 2.30yp Oedfa'r Garol a'r Gair ym Methel
21 10.30 Ysgol Sul 2.30 Oedfa Nadolig
25 8.00 Oedfa gymun bore'r Nadolig
28 10.30 Oedfa diwedd blwyddyn

## Cinio Cymunedol Penrhyn-coch

Bydd y Clwb yn cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys dyddiau Mercher 26 Tachwedd a 10 Rhagfyr. Cysylltwch â Job McGauley 820963 am fwy o fanylion neu i fwcio eich cinio.

## Urdd y Gwragedd

Cafwyd noson addysgiadol a diddorol yng nghwmni Ann Mason Davies o Goginan ar y 3ydd o Dachwedd pan fu'n ein tywys drwy Balesteina yn sôn am y gwahanol flodau sydd yn cael eu henwi yn y Beibl megis blodau'r maes, pabi coch a'r saffrwm i enwi dim ond tri. Roedd ei gwybodaeth yn anhygoel ac yn dod a'r cwbwl yn fyw i ni. Diolchwyd iddi ar ran y gwragedd gan ein llywydd, Edwina Davies.

## Cneifio ym mhen draw'r byd

Dymuniadau gorau i John James, Pen-banc sydd wedi hedfan i Seland Newydd am tua tri mis i gneifio gyda Ceredig Lewis ac Iwan George – dau o ardal *y Ddolen*.



## Swyddfa'r Post

Yn dilyn adnewyddu y cownter mae oriau newydd i Swyddfa Bost Penrhyn-coch. Gellir ei defnyddio bellach o 7 y bore hyd 7 y nos o Lun i Sadwrn ac o 8 i 4 ar y dydd Sul. Mae oriau y siop yn dal fel o'r blaen – gweler yr hysbyseb.

## Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch

Cyhoeddwyd mai dyddiad Eisteddfod 2015 fydd nos Wener a dydd Sadwrn 24-25 Ebrill.

Y beirniaid fydd:
Nos Wener
Cerddoriaeth: Sion Eilir, Pwll-glas
Llefaru ac offerynnol: Heledd Llwyd, Talgarreg
Dydd Sadwrn
Cerddoriaeth: Sioned Webb, Llanfaglan
Llefaru a llenyddiaeth: Elin Williams, Llanbedr Pont Steffan
a'r Llywyddion
Nos Wener: Ceri Williams, Penrhyn-coch
Prynhawn Sadwrn: Rhian Davies, Llanfihangel-y-Creuddyn
Nos Sadwrn: Glenys Jenkins, Tal-y-bont

Bydd y gadair yn cael ei rhoi gan Deulu y diweddar Elwyn ac Eirlys Mason Hughes.

**Dyma destunau llên a dylai cyfansoddiadau gael eu gyrru trwy'r post** – Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch, Aberystwyth, Ceredigion SY23 3HE neu e-bost Rhoshelyg@btinternet.com i'r Ysgrifennydd cyn dydd Mawrth 7 Ebrill.

**CYFANSODDI**
1. Cystadleuaeth y Gadair: Cystadleuaeth y Gadair – Cerdd gaeth neu rydd hyd at 50 llinell ar y testun: "Aros". Cadair a £50.00
2. Telyneg: ôl-traed. £10.00
3. Englyn: Llew. £10.00
4. Stori fer ar y thema Twyll. £10.00
5. Brawddeg o'r gair: TOMATO. £10.00
6. Soned: Llythyr. £10.00
7. Limrig: Yn cynnwys y llinell - "Yn Aber, mae stori ar gered... £10.00
8. Erthygl neu gyfres o bytiau diddorol addas i'w cyhoeddi mewn papur bro 1. £10.00 2. £5.00
9. Adolygiad o unrhyw nofel Gymraeg a gyhoeddwyd ers Mai 2014 – rhwng 400 a 600 o eiriau. £10.00



## Swydd newydd

Llongyfarchiadau i'r Parchg Judith Morris ar gael ei phenodi yn Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb Bedyddwyr Cymru i olynu y Parchg Peter Thomas. Bydd Judith yn dechrau yn ei swydd newydd ar 1af Ionawr 2015. Bydd yn golled mawr i Horeb a Bethel, Aberystwyth ond yn gaffaeliad mawr i'r Undeb.

## Merched y Wawr Penrhyn-coch

Nos Iau, Hydref y 9fed, aeth y gangen i ymweld â "Erins" yn Aberystwyth. Cafwyd croeso arbennig yno gan Glenys a'i staff. Mae'r safle yn cynnwys bob math o bethau i wneud unrhyw fenyw i deimlo yn hardd a hapus. Fe gafodd ein Llywydd, Wendy, ei gweddnewid gan un o'r merched ac wrth ei gwaith fe ddangosodd a rhoi bob math o wybodaeth i ni sut i roi colur ac yn y blaen ar ein hwynebau. Cafodd rhai o'r merched eu hewinedd wedi eu gwneud. Mae gan Erin ystafelloedd lu i wneud pob un i deimlo eu bod yn cael eu pampro, ystafell trin gwallt, parlwr massage, ac yn y blaen. Fe allwch fynd i Erin i godi eich calon pan fyddwch



Peter Davies, Capten tîm dartiau Arthur's Lads yn derbyn crysau T wedi eu noddi gan Clive - o Clive's Carvery, Clwb Penrhyn-coch

ambell waith yn teimlo'n isel a dod allan oddi yno yn bert ac yn hapus. Yna fe aethom i dreulio gweddill y noson yn cael bwyd yn MGs ac fe gafwyd yno groeso eto a digon i'w fwyta. Diolchwyd i Erin a MGs gan Alwen Fanning. Noson wych unwaith eto.

### Gwellhad buan

Da yw deall fod Mona Edwards, Hafod, wedi dychwelyd adref ar ôl treulio cryn amser yn yr ysbyty. Gobeithio y bydd iddi wellhad buan.
Hefyd Henry Thomas, Cwmfelin, sydd gartref ar ôl bod yn yr ysbyty ac yn well.

### Plismona bro

Cynhelir cymhorthfa heddlu ar fore Mercher olaf y mis rhwng 8.30 a 9.30 y bore yn Garej Ty Mawr, Penrhyn-coch.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Margaret Davies, Maesyrefail, a'r teulu ar farwolaeth ei brawd yn Nhynygraig yn ystod y mis.
ac â Gethin ac Elin Williams, Twm a Ned, Dôl Helyg ar farwolaeth mam Gethin ar Ynys Mon ddechrau'r mis.

### Llyfrgell deithiol

Bydd y Fan Llyfrgell yn aros ym maes parcio Clwb Pêl-droed Penrhyn-coch yn lle Sgwâr Penrhyn-coch o hyn ymlaen. 10fed o Ragfyr 2014 yw'r dyddiad nesaf.

### Gyrrwr newydd

Llongyfarchiadau i Rhydian Morgan, Tir-y-dail, ar basio ei brawf gyrru yn ddiweddar.

### Rhaglenni cymanfa ganu

Mae Rhaglenni Cymanfa 2014/5 wedi cyrraedd ac ar gael am £1.35 oddi wrth Ceris Gruffudd.



**Aelodau Ysgol Sul Horeb yn cyflwyno eu bocsus Operation Christmas Child fore Sul 9 Tachwedd.**

# Cyngor Cymuned Trefeurig

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, 16 Medi, yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch gyda'r Cadeirydd, Shân James, yn y gadair. Roedd Edwina Davies, Tegwyn Lewis, Dai Mason, Gwenan Price, Geoff Pyne, ac Eirian Reynolds yn bresennol. Roedd ymddiheuriadau wedi eu derbyn gan y cynghorwyr eraill a chan y Clerc. Cytunodd Eirian Reynolds i gymryd y cofnodion.

Cytunwyd i gwrdd nos Fawrth, 30 Medi, i beintio'r gofeb ryfel.

Gohebiaeth: Gwahoddiad i ginio swyddogol Cadeirydd Cyngor Ceredigion am 2014/15; cytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn mynd. Eglwys St Ioan yn gwahodd y Cyngor i gymryd rhan yn nathliad y Goeden Nadolig eto eleni; cytunwyd i hyn. Roedd y cynigion ar gyfer cyfarfod blynyddol Un Llais Cymru wedi cyrraedd. Trafodwyd y cynigion, ac fe awdurdodwyd cynrychiolwyr y Cyngor sut i bleidleisio lle roedd hynny'n addas.

Roedd adroddiad yr archwiliwr allanol wedi cyrraedd. Roedd yn nodi rhai materion y dylid mynd i'r afael â nhw, sef nad oedd asesiad risg diweddar wedi'i chynnwys a hefyd gofrestr o asedau'r Cyngor.

Cynllunio: cais A140488, newid garej yn ystafelloedd byw yn Llysmeurig - dim sylwadau. Cais A140598, estyniad i 42A Dolhelyg - dim sylwadau. Cais A140491, estyniad i 16 Glanceulan - dim sylwadau.

Cyfarfodydd a fynychwyd: roedd Gwenan Price ac Edwina Davies wedi bod yn y te mefus yng Nghartref Tregerddan.

Materion eraill: Cododd Dai Mason yr adroddiad diweddar a gaed ar lywodraeth leol yng Nghymru. Pe gweithredid yr argymhellion, fe fyddai llawer o uno cynghorau cymuned i greu unedau mwy o faint. Roedd Cyngor y Borth eisoes wedi ysgrifennu i wrthwynebu'r datblygiad posibl hwn, ac awgrymodd y dylai Cyngor Trefeurig wneud yr un modd. Cytunwyd i hyn.

Roedd cais wedi dod gan un o drigolion Salem yn gofyn i'r Cyngor ystyried prynu y ciosg ffôn yn y pentref. Cytunwyd i wneud ymholiadau pellach i'r mater.

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, 21 Hydref, yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch gyda'r Cadeirydd, Shân James, yn y gadair. Roedd Edwina Davies, Trefor Davies, Mel Evans, Tegwyn Lewis, Dai Mason, Dai Rees Morgan, Richard Owen, Gwenan Price, Geoff Pyne, ac Eirian Reynolds yn bresennol, ynghyd â'r Clerc.

Materion yn codi o'r cofnodion: Parthed adroddiad yr archwiliwr, nododd y Clerc fod asesiad risg ar gael ond nad oedd wedi cael ei fabwysiadu'n ffurfiol gan y Cyngor. Cytunwyd y byddai Eirian Reynolds yn edrych ar yr asesiad i weld a oedd angen ei addasu mewn unrhyw fodd.

Adroddwyd fod peth gwaith peintio wedi ei wneud ar y gofeb eisoes, ac fe ddywedodd Dai Mason y byddai'n sicrhau y byddai'r gwaith wedi ei orffen cyn Sul y Cofio. Addawodd y Clerc y byddai'n cael baner newydd ar gyfer y polyn ar y sgwâr mewn da bryd fel y gallai Eirian Reynolds ei rhoi i fyny cyn y diwrnod hwnnw. Gwnaed y trefniadau arferol ar gyfer gwasanaeth Sul y Cofio.

Roedd Dai Mason wedi paratoi lluniau o'r holl feinciau oedd yn eiddo i'r Cyngor, ac fe drafodwyd pa waith oedd angen ei wneud i'w hymgeleddu. Cytunwyd y byddai'r Clerc yn cydweithio â Dai Mason i sicrhau fod y gwaith yn cael ei wneud.

Gohebiaeth; Daethai cais am gymorth ariannol oddi wrth bwyllgor o eglwysi anghydffurfiol yng ngogledd Cedigion a oedd yn trefnu arddangosfa a chyflwyniad dramatig i goffau'r Rhyfel Byd Cyntaf. Roedd y cais eisoes wedi ei basio mewn egwyddor ddechrau'r flwyddyn, a chytunwyd yn awr i gyfrannu £300 at y prosiect.

Cynllunio - dim i'w drafod.

Cyfarfodydd a fynychwyd: Nododd Dai Mason rai materion oedd wedi dod i'w sylw'n ddiweddar fel cynghorydd sir dros yr ardal. Roedd gwaith datblygu yn parhau ar y syniad o greu llwybr seiclo o Benrhyn-coch i Aberystwyth. Hefyd roedd yr ymgyrch i agor gorsaf reilffordd yn Bow Street yn parhau; yn ogystal, yn ddiweddar fe drafodwyd y syniad o gael trenau nwyddau i ddefnyddio'r lein i Aber unwaith yn rhagor. Byddai croeso mawr i hyn gan y byddai yn golygu llai o gerbydau mawrion ar y ffyrdd.









Cafwyd Clwb Hanner Tymor llwyddiannus yn Horeb.

### Pêl-droed Penrhyn-coch

17/10/14 - Cynghrair
Penrhyn-coch 1-0 Bow Street. Josh Shaw 1

25/10/14 - Cwpan CBC
Penrhyn-coch 3-2 Rhuthun
Josh Shaw 1, Jonathan Evans 1,
Gôl gan y tîm arall

01/11/14– Cynghrair
Aberriw 0-4 Penrhyn-coch
Mattie Davies 3, Jonathan Evans 1

08/11/14 – Cwpan Cymru
Llanidloes 0-2 Penrhyn-coch
Josh Shaw 1, Elian Evans 1

11/10/14 – Emrys Morgan
Penparcau 6-2 Eilyddion Penrhyn-coch
18/10/14 – Cwpan LJN
AU RES 2-1 Eilyddion Penrhyn-coch
01/11/14 – Cwpan y Gynghrair
Eilyddion Penrhyn-coch 4-1 Eilyddion y Borth

11/10/14 – Cynghrair
3ydd tîm Penrhyn-coch 5-3 Eilyddion Padarn

18/10/14 – Cynghrair
Eilyddion Llanilar 2-2 3ydd tîm Penrhyn-coch

25/10/14 – Cynghrair
Eilyddion Dolgellau 1-2 3ydd tîm Penrhyn-coch

1/11/14 – Cynghrair
Eilyddion Aberdyfi 5-1 3ydd tîm Penrhyn-coch

**Merched**
12/10/2014 Penrhyn-coch 1 Felin-fach 6
19/10/2014 Prifysgol 2 Penrhyn-coch 3
02/11/2014 Crannog 1 Penrhyn-coch 2

## MADOG, DEWI A CEFN-LLWYD

**Oedfaon Madog**
2.00
**Tachwedd**
23 Terry Edwards
30 Christopher Prew

**Rhagfyr**
7 Bugail (Cymun)
14 Rhidian Griffiths
21 Oedfa Nadolig yr ofalaeth
28 J.E. Wynne Davies

### Diolchgarwch

Cynhaliwyd gwasanaeth Diolchgarwch yng Nghapel Madog nos Fawrth 14 o Hydref dan ofal y Parchg Judith Morris.

Cawsom bregeth amserol ac ymunodd cyfeillion o eglwysi eraill. Addurnwyd ford hyfryd o flodau, ffrwythau a llysiau gan Aldwyth Lewis a Margaret Hughes. Angharad Rowlands oedd yr organyddes.

### Gwellhad buan

Dymunwn adferiad buan i Eirian Hughes, Lluest Fach, sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Bron-glais a brysiwch i wella.

### Trefeurig

Dymunwn wellhad buan i Mr Huw Jenkins, Fferm y Darren, sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Bron-glais. Gobeithiwn eich gweld adref yn fuan.

# Colofn Enwau Lleol

Enw'r mynydd sy'n gorwedd rhwng dwy brif gangen cronfa Nant-y-moch yw'r *Drosgol*. Roedd lluest o'r un enw yn wreiddiol, a gellir gweld ei hadfeilion yng nghesail gogledd-ddwyreiniol y mynydd. Tybiai Ifor Williams mai ffurf fenywaidd yr ansoddair *trwsgl* sydd yma, nid yn yr ystyr 'afrosgo, lletchwith' fel sy'n gyfarwydd i ni heddiw, ond yn hytrach 'garw'. Mae'n ddisgrifiad perffaith o'r creigiau niferus sy'n brigo i'r wyneb ar lethrau deheuol y mynydd.

Ceir enghreifftiau o'r enw ar draws Cymru, ac mewn gwirionedd, nid *Drosgol* Nant-y-moch yw'r unig enghraifft ohono yn nalgylch *y Tincer.*

Gwta dair milltir i'r gorllewin fel yr hed y frân, rhwng Alltgochymynydd a Chyneiniog, mae bryn garw a chreigiog a enwir yn addas ddigon ar fapiau'r OS fel *Drosgol*. Rhaid troi ein golygon ychydig tua'r de i ganfod enghraifft arall. Yn ewyllys Griffith Jones, Penrhiw-las, Cwmbrwyno yn 1784 (yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru), cyfeirir at:

"all that one Tenement and Lands called Pen Rhiw Lase together with my just share of the Land called **Droskol** being the Liberty and appurtenance there unto belonging situate being and lying East of the Mound and Boundary extending in a direct Line from the Gate at the Top of Pen rhiw Lase to a certain Place called Funnon Keiley"

Caiff yr enghraifft hon ei nodi hefyd ar fap Lewis Morris 'A Plan of the Mannor of Perveth' [1744], a gellir ei lleoli'n fras yng nghyffiniau Banc Hafodau, i'r gorllewin o Benrhiw-las. Os oes unrhyw un o blith darllenwyr *y Tincer* yn gyfarwydd â'r enghraifft hon o'r enw, ac yn gallu dweud mwy am ei lleoliad (neu leoliad ffynnon 'Keiley'), byddwn yn falch iawn o glywed.

**Angharad Fychan**

**Paratowyd dan nawdd Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru**

**www.cymdeithasenwaulleoeddcymru.org**

# Astudio Defnydd Disgyblion o'r Gymraeg

Defnydd disgyblion uwchradd o'r iaith Gymraeg yw prif ffocws gwaith ymchwil myfyrwraig o dan nawdd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn Ysgol Addysg, Prifysgol Bangor.

Bwriad Hanna Binks o Gefn-llwyd yw darganfod pa ffactorau sy'n dylanwadu ar ddefnydd pobl ifanc o'r Gymraeg a'u parodrwydd i siarad yr iaith a sut mae'r ffactorau hynny yn effeithio ar eu gallu i feistroli'r iaith ar lefel rugl.

Mae diddordeb Hanna mewn iaith a dwyieithrwydd a chyflwr cyfredol y Gymraeg yn deillio o'i chyfnod fel myfyrwraig israddedig wedi iddi lunio traethawd hir ar adnabyddiaeth plant o wallau treiglo yn y Gymraeg.

Aeth yn ei blaen i astudio gallu oedolion o wahanol gefndiroedd dwyieithog i gynhyrchu ffurfiau lluosog cywir yn y Gymraeg fel rhan o'i hymchwil MA.

Roedd hi'n benderfynol o ganolbwyntio ar ddisgyblion uwchradd yn ystod ei doethuriaeth gan fod tueddiad i'w hanwybyddu mewn astudiaethau ieithyddol.

Mae Hanna o'r farn bod disgyblion



uwchradd yn dewis parhau i ddefnyddio'r iaith neu ffafrio'r Saesneg yn ystod y cyfnod yma gan fod ffactorau megis iaith grŵp ffrindiau a'r gymuned, hunan hyder ac addysg yn dylanwadu arnynt.

Er mwyn ei chynorthwyo i gasglu data ar gyfer y gwaith, mae Hanna yn gwahodd y cyhoedd i gymryd rhan trwy lenwi holiadur ar-lein. Holiadur a welir yn y ddolen yma http://goo.gl/forms/9df89cG9Ai

Yn ôl Hanna: "Buaswn yn falch o dderbyn ymatebion i'r holiadur, a hynny gan unigolion dwyieithog o wahanol gefndiroedd ieithyddol er mwyn sicrhau cynrychiolaeth deg. Hoffwn ddiolch i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol am y nawdd ac rwy'n mawr obeithio y gallaf rannu fy arbenigedd ag eraill ar ddiwedd fy noethuriaeth, boed hynny trwy ddarlithio neu waith ymchwil pellach ym maes dwyieithrwydd."

Meddai'r Dr Dylan Phillips, Uwch Reolwr Academaidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol: "Wedi dangos diddordeb mewn dwyieithrwydd yng Nghymru ers rhai blynyddoedd, cam naturiol i Hanna oedd cwblhau doethuriaeth yn y maes ac rydym yn falch o'i chefnogi â'r gwaith hwnnw. Hoffwn ddymuno'r gorau iddi gyda gweddill ei doethuriaeth ac edrychwn ymlaen at weld ei chasgliadau maes o law."

# Menter Gobaith

**PLANT AC IEUENCTID GOGLEDD CEREDIGION YN CAEL MODD I FYW**

Yn ystod gwyliau hanner tymor daeth criw sylweddol o blant ac ieuenctid ynghyd i weithgareddau a drefnwyd dan arweinyddiaeth Zoe Jones, Swyddog Gwaith Plant ac Ieuenctid Menter Gobaith.

Ddydd Mawrth yr 28ain o Hydref, cynhaliwyd Joio@ Morlan ar gyfer plant 7-11 oed y fro, lle mwynhawyd llu o wahanol weithgareddau. Daeth bron i ddeg ar hugain o blant ynghyd yng Nghanolfan Morlan i 'joio' dan arweiniad Zoe ac Arawn, ac yn ystod y dydd cafwyd amrywiol sesiynau o gemau, gwaith crefft, cwis a gwylio ffilm. Diwrnod llawn hwyl a chyffro dan adain Menter Gobaith.



Yna, ddydd Gwener y 31ain o Hydref, tro'r ieuenctid oedd hi i ddod at ei gilydd yng Nghanolfan Gymunedol y Borth i gystadlu'n frwd mewn gemau pêl-droed a phêl-rwyd, gyda Derfel Reynolds yn dyfarnu, a Kieran Owen yn rhannu'i brofiad mewn sgwrs gyda'r ieuenctid. Llongyfarchiadau i bawb a fu'n cymryd rhan, ond y tro hwn, tîm bechgyn Capel y Morfa a enillodd yr ornest pêl-droed a'r tîm merched hŷn daeth i'r brig yn y gystadleuaeth bêl-rwyd.

Y bwriad yw trefnu dyddiau tebyg o weithgareddau yn ystod yr hanner tymor nesaf fis Chwefror. Cofiwch gadw llygad am wybodaeth bellach am weithgareddau Menter Gobaith, neu cysylltwch â Zoe Jones i gael eich rhoi ar y rhestr bostio (zoejones34@gmail.com neu 01970 611510).





# Cynllun Hyfforddi Cenedlaethol Mudiad Meithrin

Tybed a oes gan rai ohonoch ddiddordeb mewn ymgeisio i fynd ar gwrs gofal plant? Mae Mudiad Meithrin yn gweinyddu ei gynllun hyfforddi cenedlaethol ar draws Cymru trwy un o'i is-gwmniau, Cam wrth Gam.

Mae lle i 200 o fyfyrwyr newydd ar y cwrs **Diploma Lefel 3 CACHE mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant** a fydd yn dechrau fis Ebrill 2015. Mae'r cynllun hyfforddi yma wedi profi'n boblogaidd iawn gan ei fod yn cael ei gynnig mewn cylchoedd meithrin, meithrinfeydd dydd neu ddosbarthiadau meithrin mewn ysgolion cynradd ar hyd a lled Cymru. Ers ei sefydlu yn 2004 mae Cam wrth Gam wedi hyfforddi dros 1,600 o fyfyrwyr sy'n eu galluogi i weithio gyda phlant yn y blynyddoedd cynnar (0 - 7 oed).

Mae'r cwrs yn para am flwyddyn ac yn cael ei gynnal o fewn oriau ysgol (16 awr yr wythnos) ac yn ystod tymor ysgol yn unig (sy'n hynod o ddefnyddiol os oes gan fyfyrwyr blant ifanc oed ysgol!). Bydd y myfyrwyr yn cael eu hasesu yn y gweithle am ddwyawr bob mis gan aseswyr cymwys, a bydd disgwyl iddynt fynd i 6 gweithdy yn ystod y flwyddyn.

Yn wahanol i lawer o gyrsiau, nid oes raid ichi dalu am fynychu'r cwrs yma a byddwch yn derbyn yr holl adnoddau addysgol e.e. llyfrau'r cwrs, dvd a.y.y.b am ddim. Byddwch yn derbyn grant hyfforddi am fynychu'r cwrs.

Ar ôl llwyddo yn y cwrs a chymhwyso byddwch yn gallu ymgeisio am swyddi amrywiol gyda phlant ifanc e.e. arweinydd neu gynorthwy-ydd cylch meithrin, rheolwr, ddirprwy reolwr neu gynorthwy-ydd mewn meithrinfa ddydd, cynorthwy-ydd dosbarth mewn ysgol gynradd, aweinydd neu gynorthwy-ydd clwb ar ôl ysgol, neu arweinydd cylch chwarae.

**Y dyddiad cau ar gyfer rhoi eich cais i mewn yw 23 Ionawr, 2015.** Beth am roi cynnig arni?
Am wybodaeth bellach, ewch i'n gwefan **www.camwrthgam.co.uk**, neu ebostiwch **post@camwrthgam.co.uk**, neu ffoniwch 01970 639601

mudiad meithrin
arbenigwyr y blynyddoedd cynnar

Cam wrth Gam
hyfforddiant blynyddoedd cynnar

**Eisiau gweithio gyda phlant ifanc?**

Dyma gyfle gwych ichi ennill cymhwyster **Diploma Lefel 3 CACHE mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant** yn y gweithle.

**Mae'r cynllun hyfforddi cenedlaethol yma yn cael ei gynnal gan Mudiad Meithrin, trwy ei is-gwmni Cam wrth Gam, o 1 Ebrill 2015 hyd 31 Mawrth 2016.**

Gwahoddir siaradwyr Cymraeg a dysgwyr da i ymgeisio am le ar y cynllun hyfforddi rhan-amser yma a leolir mewn cylchoedd meithrin, meithrinfeydd dydd neu ysgolion cynradd ledled Cymru.

Am becyn gwybodaeth ffoniwch: **01970 639 601**

neu e-bostiwch: post@camwrthgam.co.uk

neu lawrlwythwch becyn gwybodaeth llawn o'n gwefan: **www.camwrthgam.co.uk**

**Dyddiad cau: 23 Ionawr, 2015**

**Dilynwch ni: @camwrthgam**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government





# Cyngor Cymuned Melindwr

Ar nos Iau 24 Hydref 2014, gyda'r Cynghorydd Richard Edwards yn y gadair a phedwar o gynghorwyr yn bresennol fe drafodwyd y canlynol:

Mae'r cabanau bysiau yn yr ardal wedi eu glanhau gan Aled Jones yn ddiweddar.

Rydym fel Cyngor yn ymwybodol bod na nifer o dyllau yn y ffyrdd ar draws y gymuned ac yn pwyso ar yr Cyngor Sir i gwblhau'r gwaith cyn gynted a bo modd.

Derbyniwyd ymddiswyddiad y Cynghorydd Alistair Dryburgh. Mae'r Cyngor am benodi dau gynghorydd i lenwi'r seddi gwag yn fuan. Os oes gennych ddiddordeb ymuno â'r Cyngor, cysylltwch â'r clerc.

Mae Ysgol Feithrin Pen-llwyn wedi symud lleoliad i safle Ysgol Pen-llwyn.

Rydym fel Cyngor yn pwyso ar y Cyngor Sir i leihau cyflymder traffig ar stad Pen-llwyn er mwyn diogelwch plant.

Rydym fel Cyngor wedi derbyn nifer o geisiadau cynllunio yn ystod y mis.

Derbyniwyd gwybodaeth gan Gyngor Sir Ceredigion bod cais cynllunio i gadw'r tŷ haf yn Eglwys Sant Mathew, Goginan wedi ei dynnu'n ôl.

Yn ogystal, mae cais A140572 wedi ei ganiatàu i godi estyniad deulawr yn Llety Bach, Pant-y-Crug, Capel Seion.

Os ydych yn ymwybodol o unrhyw broblem, yna cysylltwch gyda'ch cynghorydd lleol.

# Tymor y Nadolig
## yng Nghapel y Garn

29 Tachwedd · 10–12 y bore
**Paned a Chroeso ar drothwy'r Adfent. Byddwn yn derbyn rhoddion o fwyd (tuniau yn unig) at Fanc Bwyd Stordy'r Jiwbili. Elw'r bore i'w rannu rhwng Capel y Garn a'r Banc Bwyd.**

3 Rhagfyr · 2.30 y pnawn
**'Naws y Nadolig' gydag Eryl Evans. Te i ddilyn yng nghwmni Cymdeithas y Chwiorydd**

12 Rhagfyr · 7.30 yr hwyr
**'Dathlu'r Nadolig' gyda Trefor ac Eleri yng nghwmni Cymdeithas Lenyddol y Garn**

14 Rhagfyr · 5 yr hwyr
**Oedfa arbennig 'Naws y Nadolig'**

21 Rhagfyr · 10 y bore
**Oedfa Nadolig y plant**

25 Rhagfyr · 9 y bore
**Oedfa Gymun deuluol**

31 Rhagfyr · 11.30 yr hwyr
**Oedfa Nos Galan**

*Croeso cynnes i bawb*



# BOW STREET

**Oedfaon**
**Capel y Garn 10.00 a 5.00**
**Gweler hefyd www.capelygarn.org/**

**Tachwedd**
23 Terry Edwards
30 Christopher Prew

**Rhagfyr**
7 Noddfa Beti Griffiths
14 Rhidian Griffiths Bugail
21 Oedfa Nadolig yr ofalaeth
28 J.E. Wynne Davies

**Noddfa**

**Tachwedd**
23 10.00 Gweinidog
30 3.30 Uno yng Nghartref Tregerddan

**Rhagfyr**
7 10.00 Gweinidog (Garn yn cydaddoli)
14 2.00 Gweinidog Cymundeb
21 10.00 Oedfa Nadolig yn y Garn
24 23.30 Oedfa noswyl Nadolig am 11.30 yr hwyr
25 9.00 Uno yn y Garn ar gyfer Oedfa Bore'r Nadolig
28 3.30 Uno yng Nghartref Tregerddan



Daeth Llinos Dafis ar draws y llun yma o Ysgol Rhydypennau dynnwyd union gan mlynedd yn ôl. Tybed faint o ddarllenwyr y *Tincer* fyddai'n nabod rhywun ynddo?

### Merched y Wawr Rhydypennau

Ar yr 11eg o Hydref aeth nifer o'r aelodau i Theatr y Werin i weld cynhyrchiad Bara Caws o'r ddrama Garw gan Siân Eirian. Cafwyd hanes teulu o Ddyffryn Aman yn niwedd yr '80au yn delio â newidiadau ymarferol ac emosiynol yn eu bywydau. Y nos Lun ganlynol yn dilyn trafod gohebiaeth rhanbarthol, croesawyd Delyth Morris Jones o Bonterwyd i'n plith gan ein llywydd, sef Mary Thomas. Sgwrsiodd Delyth am hanes ei mham yn mynd yn ferch ifanc i Lundain i weithio yn y diwydiant llaeth ac iddi wedyn benderfynu hyfforddi i fod yn nyrs yno gan arbenigo yn y pen draw fel bydwraig. Daeth i weithio i ardal Pontarfynach yn y '30au gan briodi ac ymgartrefu yn fferm Tymawr. Soniodd Delyth am sut yr oedd nyrs blwyf yn y cyfnod hynny yn gweithredu a'r cyfrifoldebau oedd ganddi dros drigolion yr ardal. Diddorol oedd cael gweld enghreifftiau o offer y nyrs ac mi roedd y cyfarwyddiadau ar ambell i beth yn wahanol iawn i sut mae pethau heddiw ac fe ychwanegwyd at y noson gan ddawn arbennig Delyth i adrodd stori. Diolchwyd iddi am noson hwyliog iawn gan Mary ac yn dilyn paned wedi ei pharatoi gan Mair a Liz aeth pawb adre a gwîn ar eu hwynebau. Enillwyd y raffl gan Bethan.

### Geni wyres

Llongyfarchiadau i Bert a Mattie Jones, Glan Nant, ar enedigaeth wyres fach o'r enw Meg yng Nghaerdydd.

### Cydymdeimlad


Cydymdeimlwn â Robert Pugh, Martin a Stephen a'r teulu, 3 Maes Ceiro. Fe gollodd Rob ei wraig Felicity yn ddiweddar ar ôl brwydr ddewr.

â Mr Tudor Gethin, Tynrhosfach, a Mrs Sheila Davies, Carreg Wen, ar farwolaeth chwaer iddynt yn Y Borth.

ac â Alan Wyn ac Ann Jones, Trem-y-ddôl. Bu farw mam Alan ym Mhwllheli a hithau newydd gyrraedd ei chant oed.

### Gwellhad buan

Pob dymuniad da i Sheila Richards, Tregerddan, am wellhad buan ar ôl llawdriniaeth yn ddiweddar




Gwyn Jenkins fu'n rhoi sgwrs i Gymdeithas Lenyddol y Garn am ei gyfrol *Cymry'r Rhyfel Byd Cyntaf* (Y Lolfa) yn ddiweddar


GWASANAETH CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Cwmsymlog
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ
01970 828454
lindagriffiths01@btinternet.com

GWASANAETH TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
PROSESYDD GEIRIAU
PRINTYDD LLIW
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â
TEGWYN LEWIS
01970 880627

## ADOLYGIAD

Elvey MacDonald *Cymdeithas Cymru-Ariannin 1939-2014*
Cymdeithas Cymru-Ariannin, 2014. 56t. £5



I gofio tri chwarter canrif ei bodolaeth mae'r Gymdeithas wedi cyhoeddi llyfr diddorol dan olygyddiaeth Elvey MacDonald, a'i bris yn £5.00. Mae'n dda cael yr hanes a ninnau'n edrych ymlaen at y flwyddyn nesaf pan ddethlir canmlwyddiant a hanner sefydlu Gwladfa Gymreig Patagonia. Cynhwysir dwy bennod a ymddangosodd yn llyfryn 1989 adeg cofio'r hanner canmlwydd – 'Hanes Sefydlu'r Gymdeihas' gan Eiddwen Humphreys, Bala, un o'r 14 a'i sefydlodd ym Mhrifwyl Dinbych, 1939, a 'Dathlu Canmlwyddiant y Wladfa', gan Valmai Jones. Gwelir llun y Llywydd cyntaf, Dafydd Rhys Jones (brodor o'r Wladfa), ysgolfeistr Ysbyty Ystwyth, ar gefn ei geffyl ar y clawr.

Y mae Elvey yn diolch "...i'r pedwar a wahoddwyd i gyfrannu eu hatgofion, Catherin Williams, a fu'n Llywydd dros gyfnod cynhyrchiol a llewyrchus iawn; y Parchedig Eirian Wyn Lewis, y Llywydd presennol, am ei brofiadau fel gweinidog yn y Wladfa; Ivonne Owen, am ysgrif sy'n ein hatgoffa am gyfraniad gŵr allweddol iawn ac am gyfnod diddorol yn hanes y Gymdeithas nad yw pawb, efallai, yn cofio amdanynt erbyn hyn; a Mari Emlyn am ei haddasiad o'i Rhagymadrodd i'w chyfrol *Llythyrau'r Wladfa* 1865-1945(Gwasg Carreg Gwalch, 2009), sy'n dwyn i gof gyfraniad Shân, ei mam, Ysgrifennydd ymroddedig y Pwyllgor Gwaith, a ffolodd ar y Wladfa a gweithio dros y Gymdeithas".

Diolchir yn "...ddiffuant hefyd i Ceris Gruffudd, Ysgrifennydd diwyd a diymhongar y Gymdeithas.a ofalodd fod y gyfrol yn gweld golau dydd". Mae criw mawr ohonom yn diolch i Ceris am ein porthi'n feunyddiol gyda hanesion o'r Wladfa. "Y diemwnt disgleiriaf yng nghoron ein Cymdeithas yw'r Cynllun Dysgu Cymraeg yn Chubut a gyllidir gan Lywodraeth Cymru a'i gefnogi'n hael gan y Gymdeithas", meddai Elvey ac mae ganddo lith yn manylu ar y cynllun. Da cofio fod yna athrawon wedi gwirfoddoli mynd draw i ddysgu cyn cyfnod y cynllun a da gweld rhai ohonyn nhw yn lluniau'r gyfrol, rhai fel Hazel Charles Evans, Cathrin Williams, Gwilym Roberts a Gruff Roberts.

Ymhlith lluniau eraill mae'n dda gen i weld un o ddadorchuddio plac i gofio am Michael D.Jones, yn Hen Gapel Llanuwchllyn ym 1975 pan ddaeth 60 o Wladfawyr i Gymru. Mae lluniau hefyd o ddadorchuddio'r garreg ar wal tŷ'r Hen Gapel i nodi man geni M.D.J. Ar 2 Mawrth 1822. A diolch am lun sy'n dangos Gwladfawyr ifanc yn gosod blodau ar fedd yr hen arloeswr. A chyn gadael y lluniau, da cael un o Aur Godre'r Aran, un fel ei thad Tom Jones a fu'n gymwynaswyr i Batagonia. Bu Aur, a fu'n ymwelydd cyson â'r Wladfa, yn gyfrifol am godi swm mawr o arian drwy'i llafur fel trefnydd Clwb Cyfeillion y Gymdeithas. Wrth ddiolch am 75 mlynedd o wasanaeth gwych y Gymdeithas edrychwn ymlaen yn hyderus at ddathlu'i chanmlwydd yn 2039.

W J Edwards

## TREFEURIG

Mae Partneriaeth Rheilffyrdd y Cambrian wedi penodi Swyddog Datblygu newydd. Dechreuodd Rhydian Mason yn ei swydd yr wythnos ddiwethaf a'i dasg cyntaf oedd ail gydio yn yr ochr weinyddol, cyfathrebu a chysylltiadau'r bartneriaeth a fu ers Chwefror 2013 yn cael ei ofalu amdano dros-dro gan Gadeirydd ac Is-Gadeirydd y bartneriaeth.

Mae gan Rhydian brofiad eang o faterion rheilffyrdd a thrafnidiaeth gyhoeddus ac mae'n edrych ymlaen i gyfrannu ymhellach tuag at y datblygiadau sy'n cynnwys y gwasanaethau ychwanegol ar gledrau'r Cambrian o fis Mai 2015.

"Rwy' wedi bod ynghlwm a'r ymgyrchu tuag at wasanaethau ychwanegol ar y Cambrian, ac rwy'n hynod falch o fod yn gweithio i'r Bartneriaeth yn ystod cyfnod mor gyffrous," dyweddod.

"Mi fyddwn yn gweld naw gwasanaeth ychwanegol ar prif gledrau'r Cambrian yn ogystal ag Arfordir y Cambrian, sy'n golygu gwasanaeth bob awr yn ystod y cyfnodau prysuraf ar y naill, a gwasanaeth lawn bob dwy awr ar y llall – mi fydd hyn yn arwain at wasanaeth llawer iawn mwy ymarferol yn enwedig i deithwyr sy' am deithio o'r arfordir tuag at Aberystwyth, ac hefyd llawer iawn mwy o opsiynau a chyfleoedd i gymudo i'r gwaith neu ysgol ac yn ôl.

"Mae llawer i'w wneud i sicrhau fod y gwasanaethau newydd yn cael eu hyrwyddo'n ddigonol, ac mae'n siŵr y bydd y dasg hwnnw hefyd yn rhan bwysig o'r gwaith wrth i ni agosáu tuag at fis Mai. Rwy'n edrych ymlaen i weithio gyda Trenau Arriva Cymru, Llywodraeth Cymru, ac yn wir bob un o'r partneriaid i sicrhau ein bod yn medru delifro'r gwasanaethau gorau posib yn yr ardal yma sy'n cysylltu'r canolbarth a gweddill y DU."

Llongyfarchiadau iddo ar y swydd- a hefyd cafodd ei ethol yn gynghorydd ar Gyngor Tref Machynlleth yn ddiweddar. Amser prysur o'i flaen felly,

Yn y llun gwelir Rhydian efo'i wraig Elen. Yn Awst fe ddathlodd nhw ddeng mlynedd o briodas. Dymuniadau gorau iddynt.



**CIGYDD BOW STREET**

Eich cigydd lleol

Pen-y-garn
Ffôn 828 447
Llun: 9-5.30
Maw-Sad 8.00-5.30
Gwerthir ein cynnyrch mewn rhai siopau lleol

**CYFEILLION CARTREF TREGERDDAN**

**Cyfarfod Blynyddol**
yng Nghartref Tregerddan
**nos Fawrth 25 Tachwedd**
**am 7 o'r gloch.**

# Y BORTH

### Cymdeithas Gymraeg Y Borth a'r Cylch

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf o'r tymor yn Neuadd y Borth nos Fercher 8 Hydref. Ein Llywydd, y Parchedig Richard Lewis oedd yng ngofal y noson a threuliwyd noson ddiddorol dros ben wrth i Richard sôn am y rhai y buasai ef yn hoffi cael pryd o fwyd ganddynt!

Gan mai dim ond 8 aelod oedd yn bresennol, trafodwyd dyfodol y Gymdeithas, ond penderfynwyd parhau â'r drafodaeth yma yng nghyfarfod mis Rhagfyr pryd y bydd y Parchg Wyn Morris yn dod atom i sôn am ei daith i'r India ar Ragfyr 10fed.

### Pen blwyddi arbennig

Pen blwydd hapus yn 80 i Peter Bourne sy'n byw ar Y Graig ac i Jill Parry sy'n byw yn Rhydygarreg, a ddathlodd ei phen blwydd yn 70.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Ronnie Davies a'r meibion, Wide Horizon, Ffordd y Fulfran, ar farwolaeth Brenda ar Hydref 25 yn Ysbyty Bron-glais. Bu Brenda fyw yn Y Borth ar hyd ei oes ac roedd yn weithgar iawn efo'r Bad Achub.

### Cynllun Amddiffyn Y Borth

#### Pam mae ei angen?

Mae angen Cynllun Amddiffynfeydd Arfordirol y Borth oherwydd yn ystod llanw uchel a thywydd stormus mae tonnau mawr yn effeithio ar yr eiddo a leolir ar y cribyn graean ac o ganlyniad gall dŵr redeg rhwng yr adeiladau a chreu llifogydd yn y pentref, gan achosi difrod.

Mae'r grwynau pren wedi dirywio i raddau helaeth erbyn hyn ac felly nid ydynt yn darparu'r safon ofynnol o ddiogelwch mwyach, gyda risg cynyddol o erydiad a difrod i eiddo.

Mae'r cynllun sydd wrthi'n cael ei adeiladu yn ceisio darparu amddiffynfa yn erbyn digwyddiad storm 1 ym mhob 100 o flynyddoedd, a bwriedir iddo bara am tua 50-100 o flynyddoedd yn dibynnu ar gyfraddau codi lefel y môr.

#### Sut mae'n gweithio?

Mae'r cynllun ei hun yn gweithio drwy ddarparu cribyn graean sy'n cadw'r môr ymhellach i ffwrdd o'r eiddo, a bydd y cribyn graean hwn yn cael ei ddal yn ei le gan amryw o strwythurau craig. Bydd y graean ei hun yn parhau i symud rhwng y strwythurau yn dibynnu ar y tonnau a'r llanw, gan ffurfio twmpathau a chribynnau. Mae ochr ddeheuol y traeth yn cael ei dal yn ei lle gan y riff alltraeth sy'n torri'r tonnau, gan greu cysgod mwy llonydd y tu ôl iddo ac amddiffyn y traeth agored.

#### Gwaith Cam 1 (wedi'i gwblhau)

Mae'r cynllun wedi cael ei rannu'n ddau gam a chwblhawyd Cam 1 ym Mehefin 2012. Yn ystod Cam 1 symudwyd y grwynau pren o ochr ddeheuol y traeth ger yr Orsaf RNLI hyd at yr orsaf drenau.

Cafodd dau grwyn craig eu rhoi yn lle'r grwynau pren a dau forglawdd craig yn ogystal â riff amlbwrpas alltraeth. Mae modd gweld strwythurau Cam 1 yn eu lle bellach ar hyd blaen y traeth.

**Gwaith Cam 2** (**gwaith cyfredol**)

Mae gwaith Cam 2 yn dilyn ymlaen o waith Cam 1 ac yn darparu amddiffynfa ar gyfer ochr ogleddol y traeth o'r orsaf drenau hyd at y cwrs golff. Caiff y grwynau pren eu symud a chaiff dau grwyn craig a thri morglawdd craig alltraeth eu rhoi yn eu lle.



#### Faint fydd y gost?

Amcangyfrifir bod costau adeiladu gwaith Cam 2 tua £3.3 miliwn. Mae hwn wedi›i ariannu drwy Lywodraeth Cymru a Chyngor Sir Ceredigion.

#### Pryd fydd y gwaith yn gorffen?

Mae'r rhaglen gyfredol yn dangos y bydd y gwaith wedi'i gwblhau erbyn Rhagfyr 2014.

#### Beth sy'n digwydd dros yr haf?


Gorffennwyd Grwynau 1 a 2. Mae morglawdd 3 angen ychydig o greigiau arno eto i'w orffen. Dechreuwyd bellach ar Forgloddiau 1 a 2. Yn ystod llanw isel fe'n cedwir yn brysur yn claddu y mawn a'r clai a gloddwyd. Rydym wedi cyflawni mwy na hanner o'r gwaith o flaen y Clwb Golff Mae y gwaith yn cario ymlaen fel y disgwyliwyd a'r gobaith yw y bydd y tywydd o'n plaid dros yr ychydig fisoedd nesaf.

#### O ble mae'r deunyddiau'n dod?

Mae'r graig ar gyfer y strwythurau yn dod yn bennaf o chwareli yng Ngarnwen a Bolton Hill yn Sir Benfro. Bydd rhai creigiau hefyd yn dod o chwarel Tonfannau sydd dim ond 40 milltir i'r gogledd o'r Borth. Bydd yr holl greigiau ar gyfer Cam 2 yn cael eu dosbarthu ar y ffordd.

#### Sut olwg fydd ar y cynllun?

Bydd y cribyn graean ar hyd y traeth yn parhau a bydd darn eang o dywod i'w weld o hyd pan fydd y llanw yn isel. Ni fydd y grwynau pren yno mwyach, ac felly bydd y traeth i'w weld yn llai rhanedig, gyda'r strwythurau craig yn debyg o ran hyd i'r grwynau pren blaenorol. Bydd Grwyn 1 yn edrych yn debyg iawn i'r grwynau craig wedi'u cwblhau ar hyd ochr ddeheuol y traeth (Cam 1). Bydd Grwyn 2 yn siâp 'migwrn'. Bydd y tri morglawdd craig alltraeth o faint tebyg ac yn edrych yn debyg i'r morgloddiau craig wedi'u cwblhau ar hyd ochr ddeheuol y traeth. Bydd marcwyr mordwyo yn nodi safle'r strwythurau craig.




**ytincer@googlemail.com**

# LLANDRE

### Banc Bro - Clwb 50

*Enillwyr mis Hydref*

1. £30 Brenda Williams, Bow Street
2. £20 Winnie Davies, Nant y Deri
3. £10 D Francis, Trawscoed

### Merched y Wawr

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar y cyd gyda Banc Bro ar Nos Wener, 28ain o Dachwedd, pryd bydd cyfle i bawb gael sgwrs, a phaned a Mins Pei. Cofiwch ddod!

### Treftadaeth Llandre

**27 Tachwedd**: Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a Peint o Hanes os gwelwch yn dda – Nigel Callaghan
Cynhelir cyfarfodydd yn Ysgoldy Bethlehem gan gychwyn am 7.30 yh.

### Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Wynne a Linda Melville Jones, Y Berllan ar ddod yn dad-cu a mam-gu unwaith eto. Ganwyd merch fach – Nel Marged – i Manon a Gwion James, a chwaer fach newydd i Ianto a Twm. Pob bendith i'r teulu bach.

### Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Nans Morgan, Dolgwiail, Lôn Glanfred a dderbyniodd fedal am roi deng mlynedd o wasanaeth i'r Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol yn ddiweddar.

### Priodas Aur

Llongyfarchiadau a dymuniad da i Regina a Sis Jones, Bron-y-gân ar ddathlu eu priodas aur mis diwethaf.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Wynne a Linda Melville Jones, Y Berllan, a'r teulu ar farwolaeth chwaer Linda yn Aberaeron mis Hydref.

### Diolch

Hoffai Regina a Sis Jones, Bron-y-gân, ddiolch yn fawr iawn i bawb am y cyfarchion a'r rhoddion a gafwyd ar achlysur eu Priodas Aur. Diolch yn fawr iawn.

### Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Joe a Sandie Hill ar enedigaeth eu hail fab, Gruffudd Arwel, brawd i Ifan Shaun, ar 1af Hydref yng Nghaerdydd. Mae Joe yn fab i Greg a Lorraine Hill, Maeshenllan a Sandie yn ferch i Lenny ac Anne Lewis, Lôn Glanfrêd.

### Merched y Wawr

Am eleni mae aelodau'r Gangen wedi penderfynu cymryd eu tro i fod yn gyfrifol am gynnal y cyfarfodydd. Gwenda James, Tre Medd oedd yn gyfrifol am drefnu cyfarfod fis Hydref a chan ei bod yn flwyddyn arbennig o goffâd i'r unigolion a syrthiodd yn ystod Rhyfeloedd Byd y ganrif ddiwethaf aeth Gwenda a ni yn ôl i Sir Fôn ac at ddwy gofeb arbennig ym mhentref Llannerch-y-medd.

Yn ystod ei phlentyndod eglurodd Gwenda fel byddai ei Nain a'i Thaid yn adrodd storïau am yr unigolion oedd wedi eu henwi ar y ddwy gofeb ac wrth gysylltu â ffrindiau o'r pentref dros y we yn ystod y misoedd d'wytha' sylweddolodd fod storïau'r unigolion arbennig yma'n brysur mynd yn angof. Gyda chymorth cyflwyniad Powerpoint adroddwyd stori ambell i filwr a laddwyd yn ystod y Rhyfel Byd cyntaf sydd â'i enw ar lech yng Nghapel Ifan. Bu Yncl Wil, brawd i Taid Gwenda, fod yn dyst i farwolaeth ffrind arbennig yn y 'trenches' ym mrwydr y Somme a chafodd ddod adref am ychydig ddyddiau o 'leave' i geisio anghofio'r erchylldra ond anodd iawn oedd cau ceg yn ystod y 'leave' am nad oedd teulu'r truan fu farw wedi cael gwybod am ei dynged.

Dwy flynedd yn ôl aeth Gwenda ar wyliau yn Ffrainc a chafodd wybod ychydig ddyddiau cyn mynd fod ganddi ewythr wedi ei ladd a'i gladdu ym mynwent Banneville La Campagne ger Caen. Roedd Ifor wedi bod yn rhan o'r fintai aeth draw i Ffrainc i frwydro wedi ymgyrch D-Day. Roedd yn gweithio yn yr ardal o Ffrainc o amgylch Pegasus Bridge – y darn cyntaf o Ffrainc i'w ryddhau o ddwylo'r Almaenwyr ond yn anffodus bu farw pan yrrodd ei dractor dros ffrwydrad tir. Yn galaru amdano yn ôl yng Nghymru roedd ei fam, gwraig a merch fach ym Mangor. Collodd y teulu yn Llannerch-y-medd gysylltiad â theulu Ifor ym Mangor wedi hyn, serch hynny bu'n brofiad bythgofiadwy i fynd a blodau o'r ardd yn Llandre draw i Ffrainc i ail gysylltu a thalu teyrnged syml. Yn yr un fynwent mae bedd yr arlunydd enwog Rex Whistler ac yn ddiddorol roedd rhywun wedi gadael brwsh paent wrth lan y bedd. Braf iawn fyddai meddwl fod y ddau filwr arbennig yma wedi cyfarfod i gydedmygu mawredd Eryri o lannau afon Menai a Phont y Borth.

Rhanwyd atgofion a phrofiadadu dros baned cyn mynd am adref ac atgoffwyd pawb y byddwn yn rhannu cyfarfod mis Tachwedd gyda Banc Bro a hynny yn ystod y Noson Nadoligaidd ar 28/11/14.

BANC BRO
**NOSON NADOLIGAIDD**
**GWYN / COCH / GWYRDD**
Bethlehem Llandre
**Nos Wener 28 Tachwedd 2014**
6.00 hyd 8.00
Y cam cyntaf i ddathlu'r Nadolig
Cyflwynir elw'r noson tuag at welliannau yn Ysgoldy Bethlehem.

### Marwolaeth

Bu farw Steve South, perchennog y maes carafanau ddiwedd mis Hydref. Cydymdeimlwn â'r teulu.

### Dathlu!

Pen blwydd hapus hwyr i Glyn Saunders Jones, Fagwyr, ddathlodd ben blwydd arbennig yn ddiweddar a llongyfarchiadau iddo ef a Gill ar ddod yn daid a nain eto – ganwyd Osian Sion dydd Llun, 10fed o Dachwedd, i Catrin a Sion, Y Llew Du, Tal-y-bont – brawd bach i Efa.

# DÔL-Y-BONT

### Cwrdd Diolchgarwch

Cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch y Babell bnawn Sul, 26 Hydref o dan ofal ein Gweinidog y Parchg. Wyn Rh. Morris.


**Swyddog Cynlluniau a Chyfathrebu**
I arwain rôl ecodyfi yn www.cobwebproject.eu a chynorthwyo Trefnydd ecodyfi. Gan ganolbwyntio ar reoli gweithgareddau lleol yn y cynllun technoleg 'gwyddoniaeth dinasyddion' yma, bydd y swyddog hefyd yn gweithio ar gyfathrebu ar ran ecodyfi a Biosffer Dyfi UNESCO.

Bydd felly angen sgiliau trefnyddol arbennig a chyfathrebu dwyieithog ac, yn ddelfrydol, gallu mewn technoleg ddigidol.

21 awr yr wythnos. £20,400 pro rata.

**Dyddiad cau**: 10yb 1af Rhagfyr

**Dogfennau**: 01654 703965

**andy.rowland@ecodyfi.org.uk**

# O'r Cynulliad – Elin Jones



Mae cyhoeddi adolygiad Marcus Longley o wasanaethau iechyd yn y Canolbarth yn ddatblygiad pwysig iawn i bawb ohonom sydd wedi ymgyrchu dros wasanaethau iechyd yng Ngheredigion.

Comisiynwyd yr adroddiad gan y Gweinidog Iechyd yn dilyn cyfarfod a gefais gydag ef a meddygon o Fron-glais a'r dalgych, ac rwy'n falch ei fod yn cydnabod anghenion arbennig Cymru wledig.

Yn bennaf, gweledigaeth yr adroddiad yw i osod Bron-glais a Cheredigion wrth galon penderfyniadau am ddyfodol iechyd, trwy gydweithio agosach rhwng byrddau iechyd a darparwyr cynradd. Yn rhy aml, bu'n hardal ni ar y cyrion.

Rwy'n siwr fod brwydrau'n dal i fod o'n blaenau, ond mae casgliadau'r Athro Longley – ar yr angen i adeiladu gwasanaethau cynaliadwy yn lleol, i adfer ymddiriedaeth rhwng y cyhoedd a phenaethiaid iechyd, ac i gwrdd â'r sialensau i ofal iechyd cynradd – yn gadarnhaol. Bydd croeso gan gleifion ac ymgyrchwyr i'r hyn sydd ganddo i'w ddweud am rai gwasanaethau fu dan fygythiad, megis triniaeth y galon.

Mae'r Gweinidog Iechyd eisoes wedi dweud y bydd yn edrych am weithredu di-oed ar rai o'r argymhellion, ac edrychaf ymlaen at gydweithio i geisio troi'r weledigaeth yn realiti.

Gweledigaeth arall sy'n sicr yn werth ei chefnogi yw'r syniad o adfer cysylltiad rheilffordd rhwng Aberystwyth, Tregaron, Llanbed a Chaerfyrddin. Rwy'n falch fod y Prif Weinidog, mewn ymateb i gwestiwn gen i mewn sesiwn drafod yn Hendy-Gwyn-ar-Dâf, wedi dweud ei fod yn rhannu'r weledigaeth, ac yn gweld y manteision a fyddai'n dod i gymunedau ar hyd y lein arfaethedig. Rwy' hefyd wedi bod yn pwyso ar fater Gorsaf Bow Street, a byddaf yn parhau i weithio dros y prosiectau yma ar bob cyfle.

James Memorials

Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU

Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111


SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Lawrence Kelly
AR AGOR
Llun - Sadwrn
7 y bore - 9 yr hwyr
Sul
7 y bore - 7 yr hwyr
Papurau dyddiol a'r Sul, llyfrgell fideo, cardiau cyfarch
siop drwyddiedig
01970 828312

ytincer@googlemail.com

# Taith gerdded y mis

## Llyn Pant yr Ebolion (Pen-dam) i Trawsnant

**Man dechrau**: Safle Bicnic ger llyn Pant yr Ebolion.
**Map**: OS Explorer 213. GR 710839.
**Pellter**: 4.5 milltir. Tipyn o lan a lawr. Rhan o'r llwybrau yn garegog.




O'r man dechrau ewch ar hyd y ffordd nes cyrraedd Llyn Blaenmelindwr ac ewch drwy iet ar y dde. Dilynwch y feidr heibio Llyn Rhos-goch ac i lawr i gyrraedd ffordd Cwmerfyn i Goginan. Trowch i'r dde ac i lawr y ffordd hyd at tro tuag yn ôl ('hairpin'). Syth ymlaen yma ar hyd llwybr ac wedyn feidr, dros y nant ac i fyny a thros sticl ar y dde cyn cyrraedd Trawsnant. I fyny ychydig a chadw i'r chwith tu ôl i Trawsnant a dilyn y llwybr i fyny i gwrdd feidr â fydd yn eich arwain yn ôl i'r man dechrau.

GWASANAETH GARDDIO
ROBERT GRIFFITHS
Am bob math o waith garddio ffoniwch
(01970) 820924

C. TREFOR EVANS
TREFNWR ANGLADDAU
"PLAS BRONGENAU"
LLANDRE
ABERYSTWYTH
Ffôn 820013

Pennau

COFFI BOREUOL
BYRBRYDAU POETH NEU OER
CINIO
TE PRYNHAWN
CREFFTAU AC ANRHEGION

Ar agor saith niwrnod yr wythnos Mehefin, Gorffennaf, Awst a Medi
(fel arall, ar gau ar ddydd Llun)

Siop **Treasures**, Tlysau a gemwaith (yn cynnwys dylunwyr Cymreig), scarffiau a chyfwisgoedd priodasol.

Caffi 01970 820 050 | Siop Treasures 01970 820 122

# CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN

**Oedfaon y Sul**
**Capel Pen-llwyn**
**Tachwedd**
23 10.00 Dr Rhidian Griffiths
30 10.00 Parchg Ifan Mason Davies

**Rhagfyr**
7 10.00 Bugail Gwasanaeth Nadolig y Plant
14 10.00 Parchg Elwyn Pryse
21 10.00 Oedfa Nadolig yr Ofalaeth
28 5.00 Parchg Judith Morris

### Y Cwrdd Diolch

Cynhaliwyd oedfa ddiolchgarwch yng Nghapel Pen-llwyn ar 23ain o Hydref, o dan arweiniad y Parchg Judith Morris. Cafwyd neges bwrpasol ganddi, a chawsom gwmni ein bugail a gymerodd at y rhannau arweiniol. Diolchwyd i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd, tuag at y blodau, ffrwythau ac ati, ac i'r organyddes Mrs Catrin Evans.


Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

**DIGWYDDIADAU MORLAN:**
• Plygain Morlan (7.30, nos Fercher, 17 Rhagfyr): croeso cynnes i bawb.
• The World is my Country (7.00, nos Lun, 12 Ionawr): noson gydag Emily Johns a Gabriel Carlyle i drafod y mudiadau a'r unigolion fu'n gwrthwynebu'r Rhyfel Byd Cyntaf. Bydd cyfres o bosteri (gan Emily Johns) yn darlunio hyn i'w gweld yn Morlan 5-14 Ionawr.
• Noson Gwis Morlan (7.30, nos Fercher, 21 Ionawr): cwis blynyddol ble mae capeli ac eglwysi lleol yn cystadlu am Darian Her Morlan.

Manylion llawn ar wefan Morlan:
www.morlan.org.uk
Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth
SY23 2HH
01970-617996; morlan.aber@gmail.com
@CanolfanMorlan



inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
Croesawir archebion gan unigolion ac ysgolion
13 Stryd y Bont
Aberystwyth
01970 626200


### Pen blwydd Arbennig

Dymuniadau gorau a llongyfarchiadau i Shaun Dryburgh, Maesmelindwr, ar ddathlu ei ben blwydd yn ddeunaw oed, ar yr unfed ar bymtheg o Dachwedd.

### Baban Newydd

Llongyfarchiadau a chofion cynnes i deulu bach Bron-llys, ar enedigaeth Ela Jên ar yr ail ar bymtheg o Hydref, baban Mr Jonathan a Mrs Angharad Lewis; chwaer fach i Morgan Jac a Iestyn Dafydd.

### Ymddeoliad

Trist na welwn Mr Dai Pryce y postmon ar hyd Pen-llwyn a'r cylch mwyach. Mae wedi ymddeol ar ôl dros ddeg ar hugain o flynyddoedd yn y gwaith.'Roedd bob amser yn serchog boed law neu hindda. Ymddeoliad hapus iddo.

### Ysbyty

Wrth fynd i'r wasg, yr oedd Mr J E Morris, Glennydd, newydd gael triniaeth lawfeddygol yn ysbyty Treforus. Pob dymuniad da am wellhad buan Eilir. Hefyd, hyderwn y bydd Mrs Gwyneth Smart yn hapus yng Nghartref Plas Cwmcynfelin. Cofion gorau ati.

### Beirniaid

Bu Mr a Mrs Arnold Evans, Cwmwythig, yn ddiweddar yn dyfarnu cystadleuaeth "Y fferm Deuluol Orau'r Flwyddyn" Hon oedd y gystadleuaeth enillwyd ganddynt hwy eu hunain yn 2013. Aethant i noson "Gwobr Ffermio Prydeinig" yn Droitwich pryd y cyflwynwyd y wobr i'r enillwyr. Y siaradwr gwâdd, oedd Simon Weston, y gŵr dewr hwnnw, a'r ddamwain a berodd iddo ddioddef losgiadau erchyll i'w wyneb.

### Profiad yr Eglwys Gadeiriol

Bu Nannon a Luned Jones Tangeulan yn Nhyddewi y mis diwethaf, a dyma eu stori i'r Tincer.

### Trip Bws i wasanaeth arbennig yn Eglwys Gadeiriol Tyddewi

Dydd Sadwrn 27 Medi roedd yn rhaid i ni godi yn gynnar iawn am 6.30yb er



mwyn mynd ar drip gyda mam i gefnogi Mrs Heather Evans a oedd yn cael ei hordeinio'n ficer mewn gwasanaeth arbennig yn Eglwys Gadeiriol Tyddewi. Mi gwrddon ni y bws wrth yr Eglwys yng Nghapel Bangor a theithio gydag aelodau o Eglwys Penrhyn-coch. Roedd y gwasanaeth yn dechrau am hanner awr wedi deg y bore a phan y cerddom i mewn i'r Eglwys Gadeiriol, roedd y lle yn orlawn. Eisteddom ar gadeiriau ar ochr yr Eglwys i wylio yr Esgob newydd, y Tra Pharchedig John Wyn Evans yn ordeinio Mrs Heather Evans a'r unigolion eraill. Roedd côr hyfryd yr Eglwys yn canu yn ystod y seremoni ac roeddem yn hoff iawn o glywed yr organ yn chwarae. Ar ddiwedd y gwasanaeth yr oedd drysau enfawr yr Eglwys yn cael eu hagor ac yr oedd yr offeiriaid newydd yn cerdded allan drwy'r gynulleidfa. Cawsom drip hyfryd iawn a chyfle i gael hufen iâ cyn mynd yn ôl ar y bws i Gapel Bangor.
**Nannon a Luned Jones, Tanygeulan, Capel Bangor**

### Merched y Wawr – Cangen Melindwr

Croesawyd pawb yn gynnes i'n cyfarfod ym mis Tachwedd gan ein Llywydd, sef Eirwen McAnulty. Trafodwyd rhai materion yn ymwneud â'r mudiad ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol, cyn croesawu ein siaradwraig, sef Siân James o Benrhyn-coch. Dechreuodd drwy ddangos cacen wedi ei haddurno a sicrhaodd wobr iddi yn Sioe Frenhinol Cymru eleni. Dangosodd sawl enghraifft o'i gwaith a phawb yn synnu at ei gwaith cywrain. Yna dyma ddangos sut i baratoi cacen ar gyfer ei haddurno. Wedi hynny aeth ati i addurno'r gacen. Gwelsom sut roedd addurniadau amrywiol yn gallu gweddnewid cacen. Gwnaeth y cyfan i edrych yn hawdd iawn, ond gwyddem mai'r rheswm am hyn oedd bod person profiadol a medrus yn arddangos ei gwaith i ni. Diolchodd Aerona Armitage i Siân James.

Gwnaed y te gan Eirwen Sedgwick a Liz Collison a chawsom flasu'r gacen a addurnwyd yn ystod y noson. Heulwen Lewis oedd enillydd y wobr raffl.

**Eglwys Dewi Sant**

Ar nos Sul, 19 Hydref, cynhaliwyd Cymanfa Ganu yn Eglwys Dewi Sant, Capel Bangor dan arweiniad Mr Dai Jones, Llanilar. Yr organyddes oedd Mrs Eirwen Hughes.

Croesawyd pawb yn gynnes, yn enwedig yr Esgob Bahati gan Y Parchedig Andrew Loat. Cafwyd araith bwrpasol a diddorol gan yr Esgob Bahati o Congo.

Hyfryd oedd gweld cynifer dda o bobl yn bresennol a chafwyd hwyl ar y canu. Rhoddwyd y weddi gan Y Parchedig Heather Evans, a'r fendith gan yr Esgob yn ei iaith gyntaf. I ddilyn, cafwyd cyfle i gymdeithasu dros baned yn Neuadd yr Eglwys.

Harddwch Siriol Beauty
07962 861 822
www.facebook.com/siriolbeauty
Brynsiriol,
Bow Street, Ceredigion SY24 5AR

eich gwefan leol
www.trefeurig.org
your local website
newyddion etc. i / news etc. to:
golygydd@trefeurig.org
William Howells,
Rhyd-y-gof, Penrhyn-coch,
Aberystwyth SY23 3EQ

R.J.Edwards
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerig mán
01970 820149
07980 687475

## Llun y mis

Llun o gasgliad Iestyn Hughes, Maes-y-garn, Bow Street. Gellir gweld mwy o'i luniau ar ei wefan http://www.atgof.co/



Gonzalo yn galw heibio'r Borth

Iwan Jones
Gwasanaethau Pensaerniol
Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau
Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com
01970 832760

Gwaith Bricio
R+R
Adeiladau newydd, Estyniadau, Gwaith Carreg, Patios
Rhod: 07815121238
Rich: 07709770473

Siop
SGIDIAU GWDIHW
8 Ffordd Portland, Aberystwyth
SY23 2NL
01970 617092
Gwasanaeth
GOFAL TRAED
Ceiropodydd /podiatrydd graddedig ac wedi cofrestru efo'r
H.C.P.C., S.R.Ch., M.Ch.S., B.S.C.Pod, Dip.Pod.Med.

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETH IECHYD A DIOGELWCH
AROLYGON DIOGELWCH
ASESIADAU PERYGLON
ARCHWILIADAU DAMWEINIAU
HYFFORDDIANT
GWASANAETH CYFLAWN I GADW CHI A'CH GWEITHLU YN DDIOGEL
01970 820124
07709 505741


SWYDDFA'R POST
BOW STREET
NWYDDAU
MELYSION
CYLCHGRONAU
CARDIAU CYFARCH
PAPURAU DYDDIOL A'R SUL
JOHN A MARIA OWEN

Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch
CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLEN BWYTY
ADLONIANT
AR AGOR O 5:30 P.M.
NOSWEITHIAU IAU A GWENER
AM BRYDIAU TEULUOL

# Y Llys – Materion Milwrol



Lluniau: S4C



Gwelwyd Dr Glyn Jones, gynt o'r ardal hon, Cas-gwent bellach fel un o drigolion y Llys.

Ar ddechrau mis Tachwedd, ymddangosodd cyfres newydd o'r enw 'Y Llys' ar S4C. Yn dilyn patrwm rhaglenni eraill yn y Gymraeg a'r Saesneg, megis 'Y Plas' neu 'The Edwardian House,' cynsail y sioe yw bod casgliad o bobl yn cael eu hail-leoli i adeilad hanesyddol er mwyn cael byw a bod mor agos a phosib at ddulliau'r gorffennol. Lleolir 'Y Llys' yn Llys Tretŵr, ym Mannau Brycheiniog, a gofynnir i'r cyfranogwyr fyw fel y byddai preswylwyr y llys wedi gwneud yn ystod y 1520au.

Ym mis Medi, gofynnwyd i mi gyfrannu diwrnod tuag at y ffilmio, er mwyn rhoi gwers gleddyfa Tuduraidd i Feistr y Llys a'i fab, Master Matthew. Heddiw, pe sonir wrth rywun am 'martial arts,' tueddir i feddwl am ffurfiau dwyreiniol, megis Kung Fu neu Karate, ond mae gan y gorllewiin hanes hir o gelfyddyd filwrol ei hun. Ceir y term 'martial arts' yn gyntaf yn y llyfr *Pallas Armata* (1639), a cheir traethodau ar ymladd (*fechtbuch*) yn deillio o'r 13eg ganrif ymlaen. Yr wyf wedi astudio cleddyfa hanesyddol, yn bennaf o'r 18fed ganrif, gyda grŵp o Rydychen ers tua degawd, drwy edrych ar hen lyfrau ar gleddyfa a cheisio ail-greu'r gwahanol sustemau a dulliau o ymladd. Gofynnwyd i bennaeth y grŵp am gymorth efo'r rhaglen, a chan mai fi oedd yr unig aelod oedd yn medru'r Gymraeg, gofynnwyd i mi gymryd rhan y 'meistr' yn y rhaglen – neu yn hytrach, ei brentis. Gwaharddwyd merched rhag bod yn athrawon cleddyfa gan y *guilds* yn Llundain, felly bu'n rhaid imi wisgo fel bachgen, 'Siencyn', er mwyn traddodi'r wers.

Dyma ni felly yn teithio i Dretŵr efo car yn llawn cleddyfau ar gyfer y ffilmio. Anodd tu hwnt yw ceisio dysgu digon i'r 'myfyrwyr' o fewn prin dwyawr i fodloni gofynion y camera heb dorri sawl cornel. Fel arfer, byddai angen gwerth sawl wythnos o sesiynau dwyawr er mwyn dysgu seiliau 'gwyddor bonheddig y cledd' – gwaith traed, safleodd y cleddyf, y gwartiau oll – a gwaith oes yw dysgu yr hwn a alwyd gan y Meistr George Silver yn 'grounds and governors', hynny yw, y reddf a'r gallu o sut a phryd i ddefnyddio'r sustem. Byddai trigolion gwreiddiol Y Llys wedi arfer efo hyn oll drwy gydol eu bywydau. Roedd hi'n gyffredin i ddyn gario arf ar ei berson yn y cyfnod yma, a gwahanol fathau o arf yn ôl y gofyn; yn ei fywyd beunyddiol, cyllell a gariai dyn, ond fe wisgai bonheddwr gleddyf ar gyfer achlysuron arbennig, neu ar gyfer rhyfela. Fe ddangosai'r math o arf a arferai dyn ei statws yn y gymdeithas. Defnyddiai'r bonedd a'r uchelwyr gleddyfau, tra roedd y werin bobl yn defnyddio offer amaethyddol, neu hyd yn oed ffon - medrai'r rhain fod yn fwy effeithiol na chleddyf oherwydd eu hyd. Byddai uchelwr yn talu meistr arfau i ddod i'w addysgu yn y dull o ddefnyddio cleddyf - po fwyaf ei gyfoeth, mwyaf aml y byddai'n medru derbyn gwersi. Roedd hi'n bwysig dysgu trin arfau'n gynnar, ac yn yr Oesoedd Canol gelwid bachgen felly yn sgweier - daeth hwn yn safle ei hunan ymhen hir, a dyma lle y cawn yr enw 'Squire' ar aelod o'r bonedd yn hwyrach. Ymddiddorai Harri'r Wythfed yn fawr ymhob math o ymarfer corff gan gynnwys cleddyfa, ac ym 1540 fe roddodd 'Letters Patent' i Gwmpeini Meistri y Gelfyddyd o Amddiffyn (*Company of Maisters of the Science of Defence*) yn Llundain, sef *'guild'* ar gyfer y rhai a fynnai bod yn feistri cleddyfa, gyda phrentisiaid, systemau rheoli ansawdd a phrisiau, arholiadau ac yn y blaen. Daw'r term modern *'fencing'* o'r enw *'the science of defence'* a arferwyd ar gyfer cleddyfa yn y cyfnod. Newidiodd cleddyfau drwy›r cyfnod, a hyd yn oed yn nechrau'r ddeunawfed ganrif, yn ôl ffasiwn; yn y cyfnod yma defnyddid cleddyf cryf efo carn mewn ffurf basged (*basket-hilted backsword*), ond yn hwyrach yn yr 16ed ganrif daeth cleddyf tramor y 'rapier' yn ffasiynol, yn dilyn y Llys yn Llundain. Gwelid elfen foesol yn y defnydd o'r cleddyf, gan fod disgwyl i'r bonedd allu defnyddio'u cleddyfau er mwyn amddiffyn y brenin a'r deyrnas. Prawf o bwysigrwydd y defnydd o arfau yn y cyfnod oedd deddf a basiwyd gan Harri'r VIII yn 1515 yn cymell ymarfer efo bwa yn rheolaidd, ar draul y sbort newydd o bêl-droed, a oedd yn achosi gormod o anafiadau a marwolaethau!



Lletchwith a chlogyrnaidd wrth reswm, felly, oedd fy nisgyblion. Yr oedd y symudiadau oll yn rhyfedd iddynt, ac wrth geisio canolbwyntio ar un rhan o'r corff, fe fyddai rhan arall ohono yn mynd yn angof. Cywiriwyd y traed, a dyna golli rheolaeth ar y cleddyf; cywiriwyd y cleddyf, a dyma faglu dros y traed. Er hyn, cafwyd cryn hwyl ar y wers, ac fe ddysgwyd rhai ymosodiadau ac amddiffyniadau i'r ddau. Daeth yr ymgodymu sydd yn rhan o'r sustem yn syndod mawr i'r Meistr! Anaml y gwelir ymladd agos mewn ffilmiau, er enghraifft, ond mi roedd yn rhan bwysig o ddysgu sut i amddiffyn eich hun. Yn wir, mi oedd Harri'r Wythfed yn ymgodymwr brwd, a chafodd ornest efo'r brenin Ffransis y Cyntaf ar Faes y Brethyn Aur.

I gloi'r wers, rhoddwyd cyfle i'r ddau ddal cleddyf unmin go iawn, yn hytrach na'r pastynau pren (*wasters*) a ddefnyddid ar gyfer ymarfer. Cleddyf llym oedd ef, ac roedd hi'n drueni nad oedd mo'r amser na'r offer gennym ni er mwyn gweld sut deimlad oedd torri efo hi. Er hynny, ymhen y ddwyawr roedd pawb wedi blino'n lân ac yn barod i weinio'u cleddyfau, wedi cael blas go lew ar ddysgu brwydro. Dim ond rhai munudau fydd yn ymddangos yn y rhaglen, ond rwy'n gobeithio y bydd yn rhoi cipolwg ar agwedd tamaid yn wahanol ar fywyd y Tuduriaid.

**Bethan Mair Jenkins**
**Rhydychen, gynt o Bow Street.**

**Yn anffodus, ar ôl holl waith Bethan nid oedd modd cynnwys yr olygfa drefnwyd yn y rhaglen wedi'r cyfan!**

## DOLAU

### Dymuniadau gorau

Pob lwc i Lisa Wyn, Pant-yr-Haul, ar ei menter newydd sydd yn agor canol mis yma – Salon Harddwch.

### Cofion

Mae pawb yn Dolau a'r ardal yn falch o weld Gaenor Hall, Minafon, adre ar ôl triniaeth mewn gwahanol ysbytai yn ddiweddar. Cryfhau sy' angen nawr.

## ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL

### Urdd y Benywod

Nos Lun gyntaf ym mis Hydref croesawodd Norma Stephens pawb yn gynnes i noson o Gaws a Gwin i agor tymor y gaeaf. Noson o hel atgofion am yr ardal oedd ar yr rhaglen a bu yna dipyn o sgwrsio am yr hen gymeriadau. 'Roedd Ioan Lord, Gellifach, hefyd wedi dod a'i gyfrifiadur a bu yn dangos lluniau diddorol iawn o weithiau mwyn yr ardal. Mae gwybodaeth Ioan am yr ardal yn anhygoel ac mi 'roedd ganddo nifer fawr o luniau wedi eu tynnu tu fewn y twnelu, ac mi 'roedd yn medru rhoi darluniau byw iawn i ni o gyfnod y cloddio yng Nghwmrheidol. Gobeithio y cawn ni fwy o'r hanesion yma yn y dyfodol.

Nos Lun gyntaf mis Tachwedd gofal y traed oedd dan sylw gyda Sian Jones o siop esgidiau Gwdihw. Pwysleisiodd mor bwysig yw edrych ar ôl ein traed a gofalu fod ein esgidiau yn ffitio yn berffaith. Mae Sian hefyd yn cynnig nifer o driniaethau ar y traed mewn clinig uwchben y siop. Noson ddiddorol iawn. Gorffennwyd gyda lluniaeth wedi ei baratoi gan Elizabeth Lewis a Margaret Davies.

### Priodas Ruddem

Llongyfarchiadau i John a Elizabeth Lewis, Dolgamlyn, ar ddathlu eu Priodas Ruddem yn ddiweddar.



## Plygain traddodiadol

**RHAGFYR 18** Nos Iau Plygain traddodiadol dan nawdd Cymdeithas y Penrhyn yn Eglwys Sant Ioan , Penrhyn-coch am 7.30

# Colofn Mrs Jones

Ynddynt eu hunain mewn manna diarffordd lle nad oes cymdogion, nid oes gennyf ddim yn erbyn tan gwyllt. Mae'r broblem yn codi pan geisir eu defnyddio yn swbwrbia, yn enwedig gan fod pobl yn meddwl bellach y gellir eu defnyddio yn amlach, nid dim ond ar y pumed o Dachwedd y cynheuir hwy bellach ond ar y Nadolig a'r Calan hefyd.

Eleni - ac am fod y cyfryngau wedi darogan tywydd drwg ar y 5 o Dachwedd, fe fu hi'n dân gwyllt fel y Dardanelles yn y lle hwn am ymron i bythefnos. Iawn, wrth gwrs i'r rhai a'u mynnai, a oes disgwyl i mi fod a'r hawl i ddylanwadu ar yr hyn a wna cymydog ym mhreifatrwydd ei ardd? Wel, oes ydi'r ateb os yw gweithredoedd fy nghymydog yn rhai a allai achosi trwbl i mi yn bersonol.

Ac fe allai tân gwyllt wneud. Meddyliwch am y 5ed o Dachwedd ei hun. Fe fu'r cymydog y tu cefn inni yn gollwng tân gwyllt am ymron i ddwy awr - ac fe gyfarthodd Cai yn gyfeiliant ansoniarus trwy gydol y perfformans. Ac nid oedd ddim allwn i ei wneud i'w rwystro heb osod Sellotape dros y snowt. A mae hi yn dorcyfraith gadael i gi gyfarth, bellach, hyd yn oed yn ei dŷ ei hun. Wrth gwrs, nid yw hyn yn deg ond fel yna mae hi a chan mai fel yna y mae hi, a wnaiff y catherine wheels a' r rockets gyfyngu eu hunain os gwelwch yn dda?

Y mae ystyriaethau eraill, yn ogystal. Un o'm mân swyddi ar nosweithiau tân gwyllt yw chwilio'r ardd amdanynt rhag ofn i'r anifeilaid eu darganfod a'u cnoi a chael dolur. A phetai un yn gosod fy nhŷ i ar dân, fe allai fy insiwrans i geisio dod allan o dalu gan ddadlau mai blerwch achosodd y tân ac y gallesid fod wedi osgoi y blerwch gyda gofal...

Mae Cai yn llawer mwy hyderus na Buster, o dan bwrdd yn crïo y byddai hwnnw ar noson y ffrwydradau ar wahân i un nos galan pan ddechreuodd y cymydog am hanner nos a ninnau eisoes yn ein gwelyau.Y noson honno, dim ond yn y gwely rhwng Meirion a fi oedd yn ddiogel os oedd hi yn mynd bang bang sgrech ar awr mor anghymdeithasol. Ond mae Cai yn llawer mwy hyderus ym mhob ffordd - ac eithrio pan welodd ei yncl Gwynn am y tro cyntaf. Fe ddotiodd Gwynn at Cai ond cuddio y tu ôl i mi wnaeth Cai a'i lygaid fel soseri... hyd nes y dechreuodd Gwynn foli Hector, buan iawn yr oedd yna gi bach yn trio dringo ar ei lin ac yn cerdded ar ei draed ôl fel ci syrcas.Y mae Cai yn treulio lot o amser ar ei draed ôl ac yn cerdded yn hwylus felly. A pherthyn iddo odrwydd arall.Y mae ganddo yr un math o draed ôl ac sydd gan wningen neu ysgyfarnog, dyna pam fod y brid yn medru neidio yn uwch nag y tybiech ond maent hefyd yn golygu y gall grafu ei ochrau gyda'i ddwy goes ar yr un pryd gan falansio ei hun ar ei golyn a'i bawennau blaen.

Y mae gan Gwynn a Mari gi eu hunain, Lyci y spaniel Cymraeg, yr un brid ag a oedd gan Cynan ers talwm ond mai Iolo Goch oedd enw hwnnw. Cas beth Lyci yw cael ei adael ar ei ben ei hun a'i ymateb i hynny i'w cloddio ei ffordd allan,yn ystod ei oes,y mae wedi peri cryn dipyn o ddifrod, y problem yw na fedr ddefnyddio ei brofiad y dychwelant I leddfu ei ofid tra maent oddi cartref. Mae'r ddau wedi ceisio popeth heb umrhyw lwyddiant a rhyw fynd allan mewn shiftiau y maent os nad yw Lyci yn gallu mynd hefo nhw. Mi ddigwyddais innau ddarllen am rhyw gyffur i dawelu ci y gellid ei ddefnyddio mewn diffuser ac,ar ôl cael gair gyda'r fet,dyma ei drio ar Lyci. A chafwyd peth llwyddiant. Pan ddaeth y ddau adref, nid oedd unrhyw anrhaith newydd wedi ei wneud i'r utility room ond roedd y diffuser wedi ei gnoi a'r hylif - 'sufficient for fifty sessions' chwedl y blyrb wedi diflannu a Lyci yn feddw bot! Diolch i'r drefn nad oedd o ddim gwaeth...

A mae Gwynn yn un od, hefyd, y mae ar goedd yn dweud nad oes ganddo ddim i'w ddweud wrth anifeilaid anwes, ond mae pob un ci a chath yn y teulu yn cael parch a sylw ganddo fel petaent cyn galled ag ef ei hun. Anifeiliaid pobl eraill yw'r anifeiliaid anwes'ma, mae'n rhaid.

# GOGINAN

### Ymddeol

Daeth cyfnod hir o wasanaeth i gymdeithas Goginan a'r cylch i ben ddiwedd mis Hydref pan welwyd ein postmon lleol yn ymddeol ar ôl cyfnod hir yn ein gwasanaethu. Roedd Dai Price yn wir bostmon gwlad yn gwneud ei ddyletswyddau yn drylwyr. Ond roedd hefyd yn gymwynasgar iawn a doedd dim yn ormod ganddo i'w wneud o fewn ei ganllawiau. Bydd llawer o'i ffrindiau a wnaeth ar ei gylchdaith yn gweld ei eisiau gan obeithio y cawn rhywun hanner cystal yn ei le. Pob lwc a iechyd iddo ar ymddeoliad hir a hapus.

### Capel Y Dyffryn

Nos Wener 3ydd o Hydref cynhaliwyd cwrdd diolch am y cynhaeaf – a hwnnw yn gynhaeaf arbennig o ffrwythlon eleni. Braf oedd medru croesawu fel arfer cyfeillion o eglwysi cyfagos. Estynnodd Arwyn Roberts groeso cynnes i'r Parchedig Judith Morris a chafwyd ganddi neges amserol – a hynny yn ei ffordd gartrefol. Roedd y Capel wedi ei addurno yn hardd iawn trwy waith Mrs Eirlys Davies, Brynmeillion, ac mae ei hoffder o'r gwaith yn dangos. Diolch yn fawr iddi.

### Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Nick Sherwood, Brynmelindwr, Anne Marie a Pete, Gwynfa ar farwolaeth eu mam yn ddiweddar.

### Marwolaeth

Bu farw Maldwyn Davies, Brynmeillion, brynhawn Sul 9 Tachwedd yn ei gartref. Cydymdeimlwn â'i wraig Eirlys a Dylan y mab a'r teulu – Sheila, Cillian a Cormac. Cynhaliwyd yr angladd yn Saron, Llanbadarn dydd Sadwrn 15 Tachwedd,

### Pen blwydd arbennig

Llongyfarchiadau i Bethan Bebb, Penpistyll, Cwmbrwyno ar gyrraedd pen blwydd arbennig yn ystod y mis. (Gol.)

### Bwlch Nant yr Arian

Mae Bwlch Nant yr Arian yn un o'r ugain atyniad mwyaf hygyrch i ymwelwyr ym Mhrydain yn ôl papur newydd y *Telegraph*.



Mrs Audrey Askam, Colin Macefield, June Baxter, Dai Price, Liz Ashton, Tom James a Bryn Price yn Araul yn cael parti ffarwel i Dai Price lle cyflwynwyd Carden a rhodd o'u gwerthfawrogiad iddo.



Mair Evans, Idris Villa, yn dathlu ei phen-blwydd yn nawdeg yng nghwmni ei ffrindiau Norma Jones a Molly Hutchinson. Dymuna Mair hefyd ddiolch yn fawr iawn am yr anrhegion a chardiau a dderbyniodd ar ddiwrnod ei phen blwydd.



# Y Rhyfel Byd Cyntaf yn ardal Gogledd Ceredigion

## Prosiect Cofio a Myfyrio


Braf oedd gweld Neuadd Goffa Rhydypennau dan ei sang nos Lun 3 Tachwedd ar achlysur agoriad swyddogol arddangosfa'r prosiect Cofio a Myfyrio'r Rhyfel Mawr yng Ngogledd Ceredigion.

Ar gofio a myfyrio roedd pwyslais y pwyllgor o gynrychiolwyr capeli gogledd Ceredigion a ddaeth ynghyd i drefnu'r prosiect, a'r ysbryd hwnnw a dreiddiodd drwy'r agoriad a lywiwyd gan Penri James. Agorwyd y cyfarfod drwy weddi addas gan y Parchedig Wyn Rhys Morris; dilynwyd hynny gan blant ysgol Tal-y-bont yn canu detholiad o englynion coffa R. Williams Parry i Hedd Wyn.


William Howells, Penrhyn-coch, oedd Curadur y prosiect; fe fu'n tyrchu ac yn twrio i ddod o hyd i'r holl greiriau, darluniau a hanesion sy'n cael eu harddangos. Fe hefyd fu'n gyfrifol am ddylunio a gosod yr arddangosfa. Diddorol oedd clywed ganddo beth oedd wedi ei daro wrth fynd i'r afael â dehongli'r fath gyfoeth, o'r pethau bach di-nod megis cardiau Nadolig, i'r pethau mawr bygythiol megis bidog rhyw Almaenwr.

Adroddodd plant o ysgol Rhydypennau emyn coffa Vernon Jones i'r rhyfel, cafwyd eitemau gan grŵp o offerynwyr pres o ardal Bow-Street dan arweiniad Mr Alan Phillips, canodd plant ysgol Llanfihangel-y-Creuddyn ddehongliad o'r gân Y Cwm, a darllenodd pedwar o bobl ifainc lleol Neges Ewyllys Da yr Urdd am eleni.

Esboniodd Euros Lewis, Arweinydd Creadigol y prosiect, ei weledigaeth wrth fynd ati i lunio'r cyflwyniad dramatig, gan




£2




£3

Copïau gan Llinos Dafis neu Marian Beech Hughes (01970 828662)



Darllenwr (Gwynant Evans)



Mari, cariad Evan John (Carys Mai)

bwysleiso mai o'r hanesion lleol a glywodd yng nghyfarfodydd dechreuol y prosiect y tyfodd y ddrama, storïau'r ardaloedd eu hunain yw'r cynnwys. Mae ei pherfformio mewn capeli yn ail-greu cefndir diwylliannol y cyfnod enbyd hwnnw yn fwy grymus nag y gallai unrhyw ddrama gonfensiynol ar lwyfan ei wneud. Ein hanes ni yn cael ei berfformio gennym ni i ni yw'r cyflwyniad.

Canodd parti o blant o Ysgol Penrhyn-coch Siyahamba, ac yna gwahoddwyd Gwynfor Hughes, bellach o Gaerdydd, ymlaen i agor yr arddangosfa'n swyddogol. Roedd gweld cymaint o fywiogrwydd yn y Neuadd Goffa yn mynd ag ef yn ôl i'w blentyndod dros bedwarugain mlynedd yn ôl, meddai, gan ein hatgoffa mai un o hen gabanau pren yr YMCA oedd Neuadd Goffa gyntaf Rhydypennau. Cyflwynwyd copi o'r gyfrol *Annwyl Gyfaill*, sef casgliad o lythyron oddi wrth William Hughes, tad Gwynfor, pan oedd yn y ffosydd yn Ffrainc, at T.I.Rees, tad Morfudd Rhys Clark, a oedd yn y Gwasanaeth Diplomyddol yn Venezuela, i Gwynfor a Morfudd gan Meinir Lowry.

Bu detholiad o gyhoeddiadau Cymdeithas y Cymod ar gael am ddim yn y neuaddau gydol yr arddangosfa, gan mai hybu heddwch oedd y nod, nid mawrygu rhyfel. Gwnaethpwyd casgliad tuag at Gymdeithas y Cymod yn y perfformiadau.

Lluniau: Iestyn Hughes





Disgyblion Penweddig



WIlliam Howells, curadur yr Arddangosfa



Côr Ysgol Penrhyn-coch

# Ysgol Craig yr Wylfa

### Jambori Ceredigion
Ar fore'r 7fed Hydref, aeth dosbarth y Cyfnod Allweddol 2 ar daith gyda disgyblion Llangynfelyn i wylio sioe Jambori yn Ysgol Gyfun Pen-glais. Cafodd y disgyblion hwyl wrth ganu'r caneuon a chymdeithasu.

### Sioe Buddug
Yn ystod y mis aethom i weld sioe arbennig yn rhoi hanes Buddug - Brenhines y Brwydro i ni. Roedd hyn yn ffordd dda iawn o ddysgu mwy am ein thema. Dysgom ni fod Buddug yn Frenhines yr Iceni a bod hi wedi arwain y Celtiaid yn erbyn y Rhufeiniaid. Roedd hi'n hwyl cael gwisgo fel milwr yn rhan o'r sioe.

### Trawsgwlad
Llongyfarchiadau i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 a fu'n cystadlu yng nghystadleuaeth Trawsgwlad Cylch Ysgolion Aberystwyth yn ddiweddar. Roedd y cystadlu'n frwd a buodd yn brynhawn blinedig i'r disgyblion.

### Cyngerdd Henoed
Mae'r disgyblion wedi bod yn brysur yn ystod mis Hydref yn perfformio yn y gymuned. Ar brynhawn dydd Iau 16eg Hydref aeth yr ysgol gyfan i ymweld ag aelodau o Gymdeithas yr Henoed yn y neuadd bentref. Croesawyd y disgyblion gan Betty, ac yna trosglwyddwyd yr awenau i'r disgyblion. Cafwyd gwledd o ganu gan y disgyblion a chafwyd perfformiadau gan yr offerynwyr.

### Diolchgarwch
Cynhaliwyd y gwasanaeth diolchgarwch yn yr Ysgol ar ddiwedd hanner tymor. Diolch yn fawr i Joy Cook am ddiddanu'r plant gyda stori diolchgarwch.

### Bags 2 School
Diolch i bawb a roddodd eu hen ddillad i Bags 2 School. Casglodd y cwmni'r bagiau ddydd Mercher diwethaf ac edrychwn ymlaen at glywed faint o arian yr ydym wedi eu codi.

### Diolch
Hoffai'r ysgol ddiolch yn fawr iawn i Bwyllgor Carnifal y Borth am ei rhodd garedig o £1,000 i'r ysgol yn dilyn llwyddiant y carnifal eleni. Rydym wedi penderfynu gwario'r arian ar Dŷ Bach Twt newydd ar gyfer y Cyfnod Sylfaen ac offer chwaraeon newydd sydd mawr eu hangen.





Diolchgarwch





Stori Buddug




ytincer@googlemail.com

# Ysgol Penrhyn-coch

### Heini

Braf oedd croesawu Karen Elli atom yn ddiweddar. Treuliodd diwrnod cyfan yn yr ysgol yn rhoi sesiynau dawns arbennig i holl ddisgyblion yr ysgol. Cafwyd llawer o hwyl a gwelwyd pob disgybl yn dangos mwynhad. Gobeithio y cawn gyfle i groesawu Karen yn ôl yn y dyfodol i adeiladu ar yr hyn a wnaeth eisioes.

### Côr

Gwelwyd Côr yr ysgol yn canu yn Neuadd Rhydypennau yn ddiweddar. Cawsant wahoddiad i ganu yn lansiad Arddangosfa i Gofio'r Rhyfel Byd Cyntaf. Roedd y Neuadd yn orlawn a chafwyd cefnogaeth dda o ddisgyblion yno. Cafwyd cyfle i weld rhannau o'r Arddangosfa ac edrychwn ymlaen yn awr i gael cyfle i ymweliad â'r Arddangosfa pan y bydd yn ymweld â Phenrhyn-coch. Diolch am y gwahoddiad i fynychu achlysur mor arbennig. (Gweler llun ar t.19)

### Llysgenhadon Efydd

Cawsom ni ein dewis fel Llysgenhadon Efydd ar ôl i ni lenwi ffurflen gais. Aeth yr Athrawon ati i ddewis tri ohonom i fod yn Llysgenhadon Efydd i'r holl ysgol. O ganlyniad i hyn, cawsom gyfle i fynd i wneud cwrs chwaraeon yn Ysgol Plas-crug gyda Alwyn a Catrin. Yn y cwrs roeddem wedi gorfod cymryd sesiwn chwaraeon ar gyfer Llysgenhadon Efydd eraill o ysgolion Aberystwyth. Nawr rydym yn gorfod cynnal sesiwn chwaraeon amser chwarae yn ein ysgol ni. Rydym yn edrych ymlaen i hyn yn fawr iawn.

*Gan Shane, Siân, Llion a Celyn*

### Jackie Minchin

Yn ystod y mis cafwyd ymweliad gan unigolyn arbennig iawn. Mae Jackie Minchin erbyn hyn yn wyneb adnabyddus i'r ysgol gan iddi ymweld â ni ar nifer o achlysuron. Mae Jackie yn nofwraig brofiadol sydd wedi llwyddo ar y llwyfan Rhyngwladol. Daeth i mewn atom i sgwrsio gyda'r disgyblion am eu gorchestion diweddaraf. Llwyddodd i ennill medalau Aur ac efydd mewn cystadlaethau diweddar. Llongyfarchiadau iddi a diolch iddi am ddod atom. Diolch i Lynwen Jenkins am ddod a Jackie atom.

### Diolchgarwch

Cynhaliwyd ein Gwasanaeth Diolchgarwch yn ddiweddar. Gwelwyd pob disgybl yn cymryd rhan yn y Gwasanaeth. Eleni, trefnwyd i gasglu nwyddau tuag at Banc Bwyd Stordy Jiwbili. Mae'r Banc Bwyd wedi ei leoli o fewn ardal Aberystwyth. Gwelwyd nifer o ganiau gwahanol yn y casgliad. Diolch i bob un a ddaeth a chyfraniad at y banc bwyd. Cyflwynwyd y rhoddion i Mary Platt ar ran y Banc Bwyd.

### Pentref Celtaidd

Ein thema yr hanner tymor diwethaf oedd y Celtiaid. Fel rhan o waith y tymor, ac yn dilyn ein hymweliad â Chastell Henllys, gofynwyd i'r disgyblion i fynd ati i greu tŷ Celtaidd eu hunain. Cafwyd enghreifftiau o dai gan bob teulu yn nosbarthiadau hŷn yr ysgol. Bu disgwyl i bob disgybl i greu arddangosfa syml o sut y gwnaethpwyd eu tai unigol. Gwelwyd rhai tai o bapur, eraill o bren ac eraill o fwd. Crewyd arddangosfa o'r holl dai yn yr ysgol ar ddiwedd yr hanner tymor. Diolch i'r disgyblion am eu gwaith arbennig ac i'r rhieni am fod mor amyneddgar!

### Ffair Nadolig

Cofiwch am ein Ffair Nadolig a chaiff ei cynnal ar nos Wener yr 21ain o Dachwedd. Bydd y noson yn cychwyn am 5 p.m. a cheir stondinau amrywiol, felly dewch i wneud ychydig o siopa Nadolig. Rydym yn gobeithio cael ymweliad gan Sion Corn hefyd!

### Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Miss Ruth Evans a Gareth Morgan a briododd cyn diwedd yr hanner tymor. Erbyn hyn, mae Miss Evans yn cael ei hadnabod yn yr ysgol fel Mrs Morgan. Llongyfarchiadau i'r ddau ohonynt.



Ychydig o'r eitemau a gasglwyd tuag at Banc Bwyd Stordy'r Jiwbili



Ein Pentref Celtaidd a grewyd gan y disgyblion.



Llysgenhadon Efydd yr ysgol

Cynhelir cyngerdd Ysgol Penrhyn-coch dyddiau Iau a Gwener 10 ac 11 Rhagfyr. Bydd perfformiad i'r Henoed am 1.30 p.m. ar y 10fed yn unig a'r perfformiadau nos am 6.30 p.m. i gyd yn Neuadd yr ysgol

# Ysgol Pen-llwyn

### Offer Chwarae

Fe dderbyniwyd offer chwarae newydd o Ray Ceredigion yn ddiweddar ac fe gafwyd amser chwarae hwyliog yn rhoi cynnig ar yr offer am y tro cyntaf. Mi fydd yr offer yn golygu y bydd gan y plant amrywiaeth dda o offer i'w defnyddio amser chwarae. Mae'r ferfa yn boblogaidd iawn ynghyd a'r stilts. Mae nifer o ddisgyblion wedi meistroli'r grefft o'u defnyddio yn barod.

### Ymweliad Ficer Andrew

Fe gafwyd gwasanaeth hwyliog yng nghwmni ficer newydd y plwyf sef y Parchg Andrew Loat - fe fwynhaodd y plant ei gwmni gan ymateb yn dda i'r gwahoddiad i ymuno yn y caneuon gyda'r gitâr. Diolch hefyd i Heather Evans am ymuno yn y gwasanaeth.

### Gwasanaeth Cynhaeaf

Fe ddaeth criw da o rieni atom cyn hanner tymor ar gyfer ein gwasanaeth cynhaeaf. Diolch i bawb a gyfrannodd tuag at ein casgliad o fwyd a roddwyd i Fanc Bwyd Aberystwyth. Rhoddwyd cyfle i blant gymryd rhan trwy ddarlleniadau a chaneuon. Fe roddwyd ffocws ar fasnach deg gan ddosbarth 2 a chafwyd hanes y modd mae banana yn ein cyrraedd o'r Caribî. Fe syfrdanwyd nifer gan gyn lleied mae'r gweithwyr yn derbyn am eu gwaith.

### Llysgenhadon Efydd

Mi gafodd Llŷr a Craig y cyfle i fynd am hyfforddiant yn Ysgol Plas-crug yn ddiweddar i'w uwchsgilio yn eu gwaith fel llysgenhadon efydd. Dywedodd Craig, "Roedd yn llawer o hwyl ac fe ddysgais lawer o bethau newydd i arwain plant yn eu chwarae, dwi'n edrych ymlaen at roi'r syniadau ar waith."
Ers hynny mae Llŷr a Chraig wedi arwain nifer o sesiynau ac mae'r disgyblion yn gwerthfawrogi eu mewnbwn yn fawr.

### Llysgenhadon Efydd

Mae Llŷr Evans wedi ei ddewis fel llysgennad efydd y flwyddyn yma ac mi fydd yn gyfrifol am drefnu gêmau i'r plant yn wythnosol yn ystod amser chwarae. Mi fydd Craig Edwards o flwyddyn 5 yn ei gynorthwyo.

### Ymweliad Ail Gylchu

Mi fuodd plant dosbarth 1 i fyny yn edrych ar wasanaethau ail gylchu'r pentref gan ail gylchu hen siwmperi yr ysgol a photeli gwydr. Fe gawsant i ddysgu ei fod yn bosib ail gylchu esgidiau yno hefyd!



RAY Ceredigion – Pwyll pia hi!



Ailgylchu – Plant dosbarth 1 yn ymchwilio ail gylchu yn y pentref



Diolchgarwch – Y cynnyrch yn barod i fynd i'r Banc Bwyd



Llysgenhadon – Llŷr a Craig yn arwain sesiwn ar yr iard

### Cyngerdd a Ffair Nadolig yr ysgol

Croeso cynnes i bawb i ddod i'r cyngerdd yng Nghapel Pen-llwyn ar **Nos Fawrth 9fed Ragfyr am 7.00yp** ac i ddod i'r ysgol i'r Ffair Nadolig ar **Nos Iau 11eg Ragfyr am 5.30yp.**

# Ysgol Rhydypennau

## Diolchgarwch

Ar ddydd Iau y 23ain o Hydref, cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch blynyddol yr ysgol. Y flwyddyn hon, mentrwyd allan o neuadd yr ysgol i Gapel Noddfa, Bow Street, ble ymunodd nifer o drigolion y gymuned â ni. Yn ystod ein gwasanaeth cafwyd gwledd o ganu a llefaru graenus. Trefnwyd casgliad ar gyfer ein helusen eleni, sef Sefydliad y Galon Cymru a chasglwyd £250.00.

Hoffwn fel ysgol ddiolch i'r Capel yn enwedig i'r Parchedig Richard Lewis a Mr Arwel George am hwyluso'r trefniadau. Diolch i Mrs Falyri Jenkins am ddifyrru'r gynulleidfa mor wych yn ystod ein Gwasanaeth. Diolch hefyd i Mrs Meinir Fleming a staff y gegin am luniaeth y p'nawn. Heb anghofio ychwaith Cymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol am gwrdd â'r costau.

Trefnwyd i Angharad Lewis ddod i'r ysgol yr wythnos ganlynol er mwyn adrodd am ei gorchest ddiweddar yn yr Affrig o goncro mynydd Kilimanjaro! Fe lwyddodd Angharad i godi swm anrhydeddus yn y broses yma tuag at Sefydliad y Galon Cymru. Ymunodd cynrychiolydd yr elusen, Mr Glan Davies â ni hefyd er mwyn derbyn siec o'n casgliad Diolchgarwch.

## Ymweliadau

**Morrisons**

Fel rhan o waith ein thema y tymor hwn fe aeth 84 o blant blynyddoedd 3-6 i siop Morrisons yn y dre er mwyn dysgu am wneud bara yn benodol ac am werthiant bwyd yn gyffredinol. Cafwyd croeso cynnes iawn gan y rheolwr a staff y cwmni. Trefnwyd y plant yn hwylus yn ystod y bore fel eu bod yn profi amryw o weithgareddau difyr gan gynnwys creu tusw o flodau, creu pitsa blasus a dysgu sut i wneud bara gwyn a brown. Hoffai'r ysgol ddiolch i staff Morrisons am eu cydweithrediad yn ystod yr ymweliad.

**Fferm Ffosygravel**

Wythnos yn ddiweddarach cafodd yr un plant ymweliad arall yn ymwneud â'n thema; y tro hwn cafwyd croeso cynnes iawn gan Fferm Ffosygravel. Mae'r fferm wedi buddsoddi mewn system odro newydd yn ddiweddar, ac fe aeth Martin a Huw Griffiths ati i adrodd hanes y fferm a sut mae'r system odro yn hwyluso eu gwaith beunyddiol. Treuliwyd y bore yn gwrando ar ffeithiau a hanes y fferm; cafwyd hefyd eglurhad cynhwysfawr am y system odro ac wrth gwrs cafwyd cyfle i weld yr holl anifeiliaid sydd ar y fferm yn cynnwys defaid, moch a lloi bach. Mae holl laeth y fferm yn cael ei gludo i Hufenfa De Arfon ac yn cael ei ddefnyddio i wneud caws; trefnodd Martin i'r hufenfa gludo sampl o'r caws i'r fferm er mwyn i bawb gael ei flasu. Cytunodd pawb fod ansawdd y caws yn arbennig o dda. Diolch yn fawr iawn i Deulu Fferm Ffosygravel am gytuno i'r ymweliad, am drefnu mor effeithiol ac wrth gwrs am roi croeso cynnes i bawb.

## Mynd am Dro

Fe aeth y dosbarth Meithrin a'r Derbyn ar daith ar y bws yn ddiweddar. Pwrpas y daith oedd cyrraedd y goedwig wrth ymyl Gogerddan. Wrth fynd am dro drwy'r coed, gwelwyd nifer o bethau diddorol iawn yn cynnwys bywyd gwyllt a phlanhigion amrywiol. Cafwyd cyfle hefyd i arsylwi ar yr holl ddail sydd wedi disgyn o'r coed yn ystod yr hydref a bu'r plant wrthi'n ddiwyd yn cymharu eu siapiau a'u lliwiau.

## Clwb Cant

Dyma ganlyniad fis Hydref
1af - £25 Rhys Tanat, Glanfrêd.
2il - £15 Gwawr Morgan, Pwll-glas.
3ydd-£10 Siôn Ewart, Cae'r Rhos.

Dyma ganlyniad fis Tachwedd
1af - £25 Catrin Manley, Cae'r Rhos.
2il - £15 Julia Taylor, Cae'r Odyn.
3ydd-£10 Angharad Lewis, Clarach.



Coedwig Gogerddan



Cyflwyno Casgliad Y Diolchgarwch (o'r chwith) Rhodri Jones, Mr Glan Davies, Mr Adrian Havard, Angharad Lewis a Morwen Bailey.



Ymweliad i Fferm Ffosygravel



Ymweliad Morrisons

# Tasg y Tincer

Ddaru chi fwynhau'r noson tân gwyllt? Gawson ni sioe wych ar Gae Pïod, Bow Street. Rwy wrth fy modd efo'r 'bang' a 'crac' a'r 'wsh' wrth i'r tân gwyllt sgrialu drwy'r awyr, cyn ffrwydro'n gawod o sêr!

Diolch yn fawr i bawb fu'n lliwio llun mis Hydref: Anest Erwan, Bow Street; Gwawr Morgan, Llandre; Cari a Dylan Jenkins, Penrhyn-coch; Alys Griffiths, Y Borth. Diolch hefyd i Cari a Dylan am eu lluniau o'r tywysog dewr ar gefn ei geffyl!

Dy enw di, Gwawr, ddaeth o'r het – llongyfarchiadau mawr!

Ydech chi'n hoffi'r castell sydd yn y llun? Mae'n bosib mai adeilad tebyg i hwn – ond ddim cweit mor grand – oedd castell Dolforwyn, ger y Drenewydd. Codwyd y castell gan dywysog o'r enw Llywelyn, ganrifoedd maith yn ôl. Llywelyn ap Gruffudd oedd ei enw llawn. Dyn pwysig oedd Llywelyn, yn filwr ac yn Gymro mawr. Ry'n ni'n cofio amdano ar 11 Rhagfyr bob blwyddyn.


*********

Mae tymor yr Adfent yn cychwyn ar ddydd Sul olaf Tachwedd ac yn gorffen ar noswyl Nadolig. Mae rhai yn dathlu'r Adfent trwy greu cylch o ddail â phedair cannwyll ynddo, yn arwydd bod Iesu wedi ei eni. 'Falle fod gan rai ohonoch chi galendr Adfent – rwy'n hoffi'r rhai sydd â siocledi. Gofalwch brynu eich calendr erbyn dydd Llun, 1 Rhagfyr!

Y mis hwn, lliwiwch lun y castell crand. Anfonwch eich gwaith at y cyfeiriad arferol, Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP erbyn Rhagfyr 1af. Ta tan toc!



Gwawr Morgan



Enw

Cyfeiriad

Ysgol

Rhif ffôn Oed


**M THOMAS**
Plymwr Lleol
Penrhyn-coch
Gosod gwres canolog
Ystafelloedd ymolchi
Cawodydd
Pob math o waith plymio
ac hefyd gwaith nwy
Prisiau rhesymol
07968 728470
01970 820375

**TACSI EDDIE**
Perchennog:
Connie Evans,
Gwawrfryn,
Penrhyn-coch
01970 828 642
07790 961 226

**JONATHAN LEWIS**
Saer Coed / Adeiladydd
01970 880652
07773 442 260
Bronllys, Capel Bangor
Aberystwyth



ISSN 0963-925X

Rhif 373 | TACHWEDD 2014